

# Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Fynwy

Adroddiad Gwerthusiad Cychwynnol - Crynodeb  
Annhechnegol

Cyngor Sir Fynwy

## Gwybodaeth ansawdd

**Paratowyd gan**

Rosie Cox  
Cynllunydd  
Amgylcheddol

Chris McNulty  
Uwch Gynllunydd  
Amgylcheddol

**Gwiriwyd gan**

Alastair Peattie  
Cyfarwyddwr Cysylltiol

**Dilyswyd gan**

Nick Chisholm-Batten  
Cyfarwyddwr Cysylltiol

**Cymeradwywyd gan**

Nick Chisholm-Batten  
Cyfarwyddwr Cysylltiol

## Hanes Adolygiadau

Adolygiad	Dyddiad yr adolygiad	Manylion	Enw	Swydd
V1	19/05/21	Drafft i'r cleient ei adolygu	Rosie Cox	Cynllunydd Amgylcheddol

## Paratowyd ar gyfer:

Cyngor Sir Fynwy

## Paratowyd gan:

AECOM Infrastructure & Environment UK Limited  
3rd Floor, Portwall Place  
Portwall Lane  
Bryste/Bristol BS1 6NA

T: +44 117 901 7000  
aecom.com

© 2021 AECOM Infrastructure & Environment UK Limited. Cedwir pob hawl.

Paratowyd y ddogfen hon gan AECOM Infrastructure & Environment UK Limited ("AECOM") at ddefnydd ein cleient (y "Cleient") yn unig yn unol â'r egwyddorion ymgynghori a dderbynnir yn gyffredinol, y gyllideb ar gyfer ffioedd a'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno rhwng AECOM a'r Cleient. Nid yw unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan drydydd partïon ac y cyfeirir ati yma wedi cael ei gwirio na'i dilysu gan AECOM, oni nodir hynny'n glir yn y ddogfen. Ni chaiff unrhyw drydydd parti ddibynnu ar y ddogfen hon heb gytundeb clir AECOM ymlaen llaw.

**GADAWYD Y DUDALEN HON YN WAG YN FWRIADOL**

## Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	1
2.	Llunio'r cynllun/ Gwerthusiad hyd yn hyn .....	8
3.	Canfyddiadau'r Gwerthusiad ar hyn o bryd .....	43
4.	Camau nesaf a monitro .....	49

**Cyflwyniad**

# 1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd AECOM i arwain ar Werthusiad Cynaliadwyedd Integredig i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Sir Fynwy (CDLIN). Mae'r gwerthusiad yn bodloni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad ar yr Amgylcheddol Strategol, Asesiad ar yr Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad ar yr Effaith ar Iechyd, Asesiad ar yr Effaith ar y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 1.2 Mae gwerthusiad yn beirianwaith ar gyfer ystyried a chyfleu effeithiau tebygol cynllun sy'n dod i'r amlwg, a'r dewisiadau gwahanol o ran materion allweddol yn ymwneud â chynaliadwyedd. Nod y gwerthusiad yw bod yn sail i'r broses o lunio cynllun a dylanwadu arni gyda golwg ar osgoi a lliniaru effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o'r effeithiau cadarnhaol. Trwy'r dull hwn, mae'r gwerthusiad ar gyfer y CDLIN yn ceisio sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan y cynllun datblygu at ddatblygu cynaliadwy.
- 1.3 Fel y nodwyd uchod, mae'r gwerthusiad yn ceisio cyflawni'r gofynion ar gyfer Gwerthusiad Cynaliadwyedd, Asesiad ar yr Amgylcheddol Strategol, Asesiad ar yr Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad ar yr Effaith ar Iechyd, Asesiad ar yr Effaith ar y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y dull yw integreiddio'r elfennau hyn yn llawn i gynnig un broses asesu i fod yn sail i ddatblygu'r CDLIN. Rhoddir disgrifiad o bob un o'r elfennau hyn a'u diben isod.
- 1.4 Cyhoeddir yr Adroddiad Gwerthusiad Cychwynnol a'r Crynodeb Annhechnegol hwn ochr yn ochr â Strategaeth a Ffafir y CDLIN. Bydd unrhyw gyflwyniadau a dderbynnir yn cael eu hystyried a bydd Adroddiad Gwerthusiad diwygiedig a Chrynodeb Annhechnegol yn cael eu cyhoeddi yn y pen draw ochr yn ochr â'r CDLIN Adnau.
- 1.5 Mae rhoi adroddiadau gwerthusiad yn ei hanfod yn ymwneud ag ateb y cwestiynau canlynol yn eu tro:
  1. Beth mae llunio'r cynllun/gwerthusiad wedi ei gynnwys hyd yn hyn?
    - Gan gynnwys yng nghyswllt 'dewisiadau gwahanol rhesymol'.
  2. Beth yw canfyddiadau'r gwerthusiad ar hyn o bryd?
    - h.y. yng nghyswllt y Cynllun Drafft (h.y. y Strategaeth a Ffafir).
  3. Beth sy'n digwydd nesaf?
    - Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i roi'r cynllun ar ei ffurf derfynol (a'i fonitro)?
- 1.6 Atebir pob un o'r cwestiynau hyn yn eu tro isod. Fodd bynnag, yn gyntaf mae angen gosod y sefyllfa ymhellach trwy ateb y cwestiynau i) Beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni?; a ii) Beth yw cwmpas y Gwerthusiad Cynaliadwyedd?

## Beth mae'r CDLIN yn ceisio ei gyflawni?

- 1.7 Mae Cyngor Sir Fynwy yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLIN) ar gyfer y sir (ac eithrio'r ardal sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Bydd y CDLIN yn trafod y cyfnod 2018-2033 a'r cynllun fydd y cynllun defnydd tir statudol i gefnogi cyflawni diben y Cyngor o helpu i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn sy'n cefnogi llesiant y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Bydd y CDLIN yn nodi cynigion datblygu defnydd tir i'r Sir a bydd yn dynodi ble y bydd datblygiadau newydd yn digwydd a sut am gyfnod y Cynllun Newydd. Bydd hefyd yn dynodi ardaloedd i'w diogelu rhag datblygiadau a chynnig polisiâu i asesu ceisiadau cynllunio yn y dyfodol mewn cymhariaeth â nhw. Bydd y CDLIN yn adeiladu ar y Cynllun Datblygu Lleol presennol sydd ar gyfer y cyfnod 2011-2021.

## Gweledigaeth

- 1.8 Mae'r weledigaeth yn egluro prif ddiben y CDLIN ac yn cynnig fframwaith ar gyfer datblygu'r Strategaeth a Ffafir a pholisïau manwl yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth a nodir yn y CDLI 2011-2021 wedi cael ei hadolygu a'i diweddarau i ystyried y problemau, heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r Sir ac yn adlewyrchu elfennau allweddol Cynllun Llesiant a Chynllun Busnes Corfforaethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Weledigaeth wedi cael ei hadolygu yng ngoleuni'r pandemig Covid-19 ac ystyrir ei bod yn dal yn berthnasol ac addas.

### **Erbyn 2033 bydd Sir Fynwy yn fan lle bydd:**

- 1) **Pobl yn byw mewn cymunedau cynaliadwy, gwydn sy'n cynnal llesiant y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol ac yn fwy cynhwysol, cydlynus, ffyniannus, bywiog a chytbwys yn ddemograffig. Y cymunedau trefol a gwledig wedi cysylltu'n dda gyda mynediad gwell i wasanaethau lleol a chyfleusterau, manau agored a chyfleoedd cyflogaeth.**
- 2) **Cymunedau a busnesau yn rhan o Sir sy'n ffynnu'n economaidd a chysylltiadau da ganddi.**
- 3) **Y gorau o asedau treftadaeth adeiledig, cefn gwlad, tirwedd ac amgylcheddol y Sir wedi cael eu diogelu a'u gwella i gadw ei chymeriad unigryw.**
- 4) **Pobl yn mwynhau ffyrdd o fyw iachach, mwy cynaliadwy gyda gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd teithio llesol a'u heffaith ar amgylchedd y byd cyn lleied â phosibl.**

### **Oblygiadau gofodol cyflawni'r Weledigaeth hon fydd, erbyn 2033:**

**Bydd Sir Fynwy wedi tyfu'n gynaliadwy, gyda dosbarthiad cymesur o gartrefi newydd a swyddi ar draws yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy, sy'n cael eu cefnogi gan gyfleusterau a seilwaith gan ddarparu tai fforddiadwy i fodloni anghenion lleol.**

**Bydd datblygiadau wedi cyfrannu at hwyluso ffyrdd o fyw cynaliadwy drwy ddarparu manau o safon uchel sy'n hyrwyddo datblygiadau carbon isel gyda chymysgedd briodol o ddefnyddiau ac sydd wedi cysylltu'n dda yn ddigidol a ffisegol i'r ardal ehangach o ran cymeriad, amgylchedd a symud ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.**

## Amcanion

- 1.9 Er mwyn ymdrin â'r materion allweddol/ heriau a chyflawni'r weledigaeth, datblygwyd 17 o amcanion ar gyfer y CDLIN, sy'n adeiladu ar amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd a'r amcanion llesiant a nodir yng Nghynllun Llesiant Sir Fynwy. Yna adolygwyd a diwygiwyd yr amcanion yn dilyn y datganiad argyfwng hinsawdd ym Mai 2019. Fe'u hadolygwyd hefyd yn sgil y pandemig Covid-19 a'u cymeradwyo gan y Cabinet ar 17 Mehefin 2020 a gan y Cyngor (Hydref 2020) fel rhai oedd yn parhau yn berthnasol.
- 1.10 Yn yr un modd â materion CDLIN, mae'r amcanion a nodir yn **Nhabl 1.1** isod wedi eu grwpio yn gyson â'r saith nod llesiant fel maent yn cael eu nodi yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015), ac yn cyd-fynd â materion y Cynllun Datblygu Lleol, y prif themâu polisi a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW11) ac amcanion Cynllun Llesiant Sir Fynwy.



Tabl 1.1 Amcanion CDLIN

Rhif Amcan CDLIN	Pennawd:	Amcan CDLIN
<b>Cymru Ffyniannus (Nod Llesiant 1)</b>		
<b>Amcan 1</b>	Twf Economaidd/ Cyflogaeth*	Cefnogi economi ffyniannus, gyda chysylltiadau da, amrywiol, sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwaith o safon uchel i alluogi ac annog twf busnes cynhenid a denu mewnfuddsoddiad a busnesau blaengar cystadleuol mewn sectorau twf addas, gan gynnwys trwy ddarparu busnesau newydd a mannau i fusnesau dyfu.
<b>Amcan 2</b>	Canolfannau manwerthu*	Cynnal a gwella trefi sirol, sef Y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy, Cil-y-coed, a Brynbuga fel canolfannau manwerthu bywiog a deniadol yn gwasanaethu eu poblogaethau eu hunain a rhai'r cyffiniau, ynghyd â chynyddu'r gronfa bosibl o gwsmeriaid trwy dwf yn y dyfodol gan gydnabod bod swyddogaeth y canolfannau hyn yn esblygu.
<b>Cymru Gydnerth (Nod Llesiant 2)</b>		
<b>Amcan 3</b>	Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd*	Diogelu, gwella a rheoli amgylchedd naturiol Sir Fynwy a'r ecosystemau. Mae hyn yn cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, tirweddau eraill o safon uchel ac unigryw y Sir, safleoedd wedi'u diogelu, rhywogaethau sydd wedi eu diogelu a buddiannau bioamrywiaeth eraill, ynghyd â'r cysylltiad rhyngddynt trwy greu cysylltiadau newydd iddynt addasu gan, ar yr un pryd, wneud y mwyaf o'r manteision i'r economi, twristiaeth, iechyd a llesiant.
<b>Amcan 4</b>	Risg llifogydd	Sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried y risg o lifogydd, cyfredol ac yn y dyfodol, gan gynnwys yr angen i osgoi datblygiadau anaddas mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd neu a all gynyddu'r risg o lifogydd mewn man arall a'r angen i ddylunio datblygiadau i reoli dŵr sy'n llifo ar yr wyneb yn briodol.
<b>Amcan 5</b>	Mwynau a Gwastraff	Cyflawni ymrwymadau rhanbarthol a lleol y Sir i reoli a gwaredu ei gwastraff a diogelu a manteisio ar ei hadnoddau mwynol mewn modd cynaliadwy.
<b>Amcan 6</b>	Tir	Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, gan gynnwys yr angen i: <ul style="list-style-type: none"> <li>wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddatblygu ar dir sydd wedi ei ddatblygu yn y gorffennol, gan gydnabod bod y cyfleoedd tir llwyd yn gyfyngedig yn Sir Fynwy.</li> <li>diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas gan, ar yr un pryd, gydnabod na fydd hyn yn bosibl bob amser o ystyried y gyfran uchel o dir gorau a mwyaf amlbwrpas yn y Sir a'r cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu safleoedd tir llwyd.</li> </ul>
<b>Amcan 7</b>	Adnoddau naturiol	Hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau naturiol gan gynnwys darparu mwy o gyfleoedd o ran effeithlonrwydd dŵr, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, ailgylchu a lleihau gwastraff.
<b>Cymru Iachach (Nod Llesiant 3)</b>		
<b>Amcan 8</b>	Iechyd a Llesiant*	Gwella mynediad i bawb at yr holl gyfleoedd hamdden, chwaraeon, mannau agored a chefn gwlad ac i alluogi ffyrdd iachach o fyw.
<b>Cymru sy'n fwy cyfartal (Nod Llesiant 4)</b>		
<b>Amcan 9</b>	Demograffeg*	Cynyddu cyfleoedd i'r boblogaeth iau i fyw a gweithio yn Sir Fynwy i gynorthwyo i sicrhau demograffeg gytbwys.
<b>Cymru o Gymunedau Cydlynus (Nod Llesiant 5)</b>		
<b>Amcan 10</b>	Tai*	Darparu lefel o dai sy'n ddigonol i gynnig dewis amrywiol iawn o gartrefi i breswylwyr presennol ac yn y dyfodol, gan sicrhau bod anghenion lleol am dai priodol, fforddiadwy a hygyrch yn cael eu bodloni cyn belled ag y mae'n bosibl, yn arbennig mewn trefi ond hefyd mewn ardaloedd gwledig, cyn belled â bod tai o'r fath yn gallu cynorthwyo i lunio cymunedau cynaliadwy cytbwys.

<b>Rhif Amcan CDLIN</b>	<b>Pennawd:</b>	<b>Amcan CDLIN</b>
<b>Amcan 11</b>	Creu lleoedd	Hyrwyddo lleoedd o safon uchel, cynaliadwy trwy eu dyluniad, eu patrwm a'r gymysgedd o ddefnyddiau sy'n gwella cymeriad a hunaniaeth aneddiadau Sir Fynwy a chefn gwlad; creu lleoedd deniadol, diogel a hygyrch i fyw, gweithio ag ymweld â nhw; a hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl.
<b>Amcan 12</b>	Cymunedau	Llunio cymunedau cynaliadwy gwydn lle mae gan bobl fynediad da at waith, siopau, tai, trafndiaeth gyhoeddus, teithio llesol, gofal iechyd, cyfleusterau cymunedol a diwylliannol.
<b>Amcan 13</b>	Cymunedau Gwledig	Cynnal y cymunedau gwledig sy'n bodoli cyn belled ag y gellir trwy gynnig cyfleoedd datblygu ar raddfa ac mewn lleoliad addas mewn ardaloedd gwledig er mwyn cynorthwyo i lunio cymunedau gwledig cynaliadwy a chryfhau'r economi wledig.
<b>Amcan 14</b>	Seilwaith*	Sicrhau bod seilwaith ffisegol a digidol priodol (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol a hamdden, carthffosiaeth, dŵr, cludiant, ysgolion, gofal iechyd a band eang ac ati) yn eu lle neu y gellir eu darparu ar gyfer datblygiadau newydd.
<b>Amcan 15</b>	Hygyrchedd	Ceisio lleihau'r angen i deithio drwy hyrwyddo cymysgedd o ddyraniadau defnydd tir a gwell cysylltedd rhyngwyd, a phan fydd angen teithio, cynnig cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy integredig.
<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (Nod Llesiant 6)</b>		
<b>Amcan 16</b>	Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg	Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig, diwylliant a threftadaeth Sir Fynwy at y dyfodol gan sicrhau'r manteision mwyaf i'r economi, twristiaeth a llesiant cymdeithasol, gan gynnwys cefnogi a diogelu'r Gymraeg.
<b>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang (Nod Llesiant 7)</b>		
<b>Amcan 17</b>	Newid Hinsawdd*	Ymdrechu i gyfyngu'r cynnydd yn y tymheredd byd-eang i 1.5°C, cefnogi lleihau carbon trwy amrywiaeth o gamau gan gynnwys defnyddio ynni adnewyddadwy, dyluniad a lleoliad datblygiadau newydd, annog twf swyddi a phoblogaeth cytbwys, darparu cysylltedd band eang i leihau'r angen i deithio, darparu seilwaith gwefru cerbydau allyriadau isel i leihau allyriadau a gwella ansawdd yr aer, a darparu Seilwaith Gwyrdd o ansawdd.

\* yn dynodi bod yr Amcan yn cael mwy o bwyslais a phwysigrwydd yng ngoleuni Covid-19

## Beth yw cwmpas yr Aseiad Cynaliadwyedd Integredig (ISA)?

- 1.11 Caiff hanfod cwmpas yr ISA ei adlewyrchu mewn rhestr o amcanion cynaliadwyedd, a ddatblygwyd yn dilyn proses 'gwmpasu' (oedd yn cynnwys ymgynghoriad ar gwmpas yr Aseiad Cynaliadwyedd yn 2018). Gyda'i gilydd, mae'r amcanion hyn yn dangos paramedrau ISA ac yn rhoi 'fframwaith' methodolegol ar gyfer gwerthuso.

Tabl 2.2: Fframwaith ISA

Thema ISA	Amcan ISA
<b>Economi a Chyflogaeth</b>	<p>Darparu twf economaidd cynaliadwy drwy gryfhau'r economi lleol a manteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig gyda Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, hyrwyddo twristiaeth a hybu bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.</p> <p>Cynyddu amrywiaeth ac ansawdd cyflogaeth o fewn Sir Fynwy i ateb anghenion a ddynodwyd.</p>
<b>Poblogaethau a Chymunedau</b>	<p>Darparu nifer ddigonol o dai ansawdd da mewn amrywiaeth o fathau a daliadaethau sy'n galluogi pobl i ddiwallu eu hanghenion tai a chefnogi twf a ffyniant economaidd.</p> <p>Drwy greu lleoedd a dylunio cynaliadwy, cynnal a hybu cymeriad gweledol a'r hyn sy'n neilltuol am yr amgylchedd adeiledig i greu lleoedd gwych i fyw ynddynt. Cefnogi a hyrwyddo cymeriad neilltuol cymunedau lleol.</p>
<b>Iechyd a Llesiant</b>	<p>Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddwl drwy annog ffyrdd o fyw mwy iach, amgylchedd byw safon uchel a diogelwch y gymuned..</p>
<b>Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol</b>	<p>Gostwng tlodi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniaeth gymunedol.</p>
<b>Trafnidiaeth a Symud</b>	<p>Gwella mynediad i bawb i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau mewn ffordd sy'n gostwng dibyniaeth ar ddefnydd ceir drwy wella seilwaith a hyrwyddo teithio llesol, gan hefyd sicrhau mynediad i gyfathrebu digidol a chyfleustodau ansawdd uchel.</p>
<b>Adnoddau Naturiol (Aer, Tir, Mwynau a Dŵr)</b>	<p>Gostwng pob math o lygredd aer er budd gwella ansawdd aer lleol.</p> <p>Defnyddio tir yn effeithiol drwy roi blaenoriaeth i ddatblygu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, defnyddio tir presennol yn effeithiol a diogelu tir amaethyddol da lle bynnag mae modd.</p> <p>Sicrhau y caiff deunyddiau a mwynau sylfaenol eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy, yn cynnwys drwy weithredu economi cylchol drwy ostwng gwastraff, ail-ddefnyddio ac ailgylchu.</p> <p>Cynnal a gwella ansawdd dŵr daear, wyneb ac arfordirol a faint o ddŵr sydd ar gael yn gynnwys cyflenwadau dŵr yfadwy, dŵr daear a lefelau afon..</p>
<b>Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth</b>	<p>Cadw, gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o fewn ac o amgylch Sir Fynwy.</p>
<b>Amgylchedd Hanesyddol</b>	<p>Cadw a gwella arwyddocâd amgylchedd hanesyddol, asedau diwylliannol (yn cynnwys y defnydd o'r Gymraeg) ac asedau treftadaeth y Sir a'u lleoliadau</p>
<b>Tirlun</b>	<p>Gwarchod a gwella ansawdd a chymeriad tirlun gorau Sir Fynwy, yn cynnwys ei gyfraniad at leoliad a chymeriad aneddiadau.</p>
<b>Newid Hinsawdd</b>	<p>Hyrwyddo ac annog cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy ac effeithiolrwydd ynni.</p>

**Thema ISA**

**Amcan ISA**

**Risg Llifogydd**

Sicrhau y caiff datblygiadau newydd eu cynllunio a'u lleoli i osgoi risg llifogydd a sicrhau na chaiff risg llifogydd ei godi mewn man arall.

**Rhan 1: Beth mae llunio'r  
cynllun/ y Gwerthusiad  
Cynaliadwyedd Integredig  
wedi ei gynnwys hyd yn hyn?**

## 2. Llunio'r cynllun/ y Gwerthusiad hyd yn hyn

- 2.1 Mae'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol wedi bod ar y gweill ers 2018, gydag ystod eang o dystiolaeth a gynhyrchwyd i fod yn sail i ddatblygiad y CDLIN. Mae **Tabl 2.1** yn nodi'r dogfennau CDLIN a Gwerthusiad Cynaliadwyedd allweddol ynghyd â'r dyddiadau ar gyfer ymgynghori. Gellir gweld y dogfennau CDLIN a'r sail o dystiolaeth (gan gynnwys Adroddiadau'r Gwerthusiad) a'u lawrlwytho ar wefan y Cyngor.<sup>1</sup>

**Tabl 2.1: Camau CDLIN a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd**

Dogfennau ac Ymgynghoriad CDLIN	Dogfennau ac Ymgynghoriad CDLIN
	Adroddiad Cwmpas y Gwerthusiad Anfonwyd i ymgynghori arno o 26 Hydref i 30 Tachwedd 2018.
Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion (Ionawr 2019 fel y'i diwygiwyd Mehefin 2021)	
Papur Twf a Dewisiadau Gofodol Ymgynghoriad cyhoeddus o Orffennaf i Awst 2019	
Strategaeth a Ffafir Ymgynghoriad cyhoeddus o 09 Mawrth i 20 Ebrill 2020 (Ymgynghoriad wedi ei atal oherwydd Covid-19). Daeth yr ymgynghoriad i ben yn dilyn cyngor gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (7 Gorffennaf 2020)	Adroddiad Gwerthusiad Cychwynnol a'r Crynodeb Annhechnegol Ymgynghoriad cyhoeddus o 09 Mawrth i 20 Ebrill 2020 (Ymgynghoriad wedi ei atal oherwydd Covid-19). Daeth yr ymgynghoriad i ben yn dilyn cyngor gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (7 Gorffennaf 2020)
Adolygiad o Faterion, Gweledigaeth, Amcanion a Sail Tystiolaeth yng ngoleuni Covid-19 (Medi 2020) Cytunwyd ar yr Adolygiad hwn gan y Cyngor ar 22 Hydref 2020 ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn unol â chyngor y Gweinidog	
Papur Ymgynghorol Twf a Dewisiadau Gofodol CDLIN ar ôl Ailymweld Ymgynghoriad cyhoeddus Ionawr i Chwefror 2021	Gwerthusiad o Adroddiad Dewisiadau Strategol Ymgynghoriad cyhoeddus Ionawr – Chwefror 2021 ar y CDLIN Twf a Dewisiadau Gofodol ar ôl Ailymweld

- 2.2 Mae'r rhan hon o'r Crynodeb Annhechnegol yn nodi'r gwaith a wnaed yn 2018 – 21 a arweiniodd at ddatblygu'r ddogfen Strategaeth a Ffafir sydd ar hyn o bryd yn ganolbwynt y gwerthusiad (gweler Rhan 2, isod) ac mae ar hyn o bryd wedi ei gyhoeddi i ymgynghori arno. Yn benodol, yn unol â gofynion rheoleiddiol (Atodlen 2 y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol), mae angen esbonio sut y gwnaed y gwaith i ddatblygu ac yna i werthuso dewisiadau gwahanol rhesymol, a sut y gwnaed y Cyngor wedyn ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad wrth lunio'r cynllun drafft terfynol i'w gyhoeddi.
- 2.3 Mae'r rhan hon o'r Adroddiad Gwerthusiad Cychwynnol a'r Crynodeb Annhechnegol yn cyflwyno gwybodaeth am ystyried dewisiadau gwahanol. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig o ystyried y gofynion rheoleiddiol.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> <https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/local-development-plan-revision/>

<sup>2</sup> Mae gofyn i'r Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd gyflwyno Gwerthusiad o 'dewisiadau gwahanol rhesymol' ac 'amlinelliad o'r rhesymau dros ddevis y dewisiadau a drafodwyd'. Er nad hwn yw'r Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd, mae'n briodol cyflwyno'r wybodaeth hon beth bynnag er budd y rhanddeiliaid.

## Sefydlu'r Dewisiadau Gwahanol Rhesymol

### Gwerthusiad Cychwynnol o ddewisiadau twf (Mawrth 2020)

- 2.4 Ar y cyd comisiynwyd Edge Analytics gan Gyngorau Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau Gwent i baratoi ystod o sefyllfaoedd twf demograffig, tai a gwaith i fod yn sail i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Crëwyd cyfanswm o 20 o wahanol sefyllfaoedd yn cael eu harwain gan ddemograffeg, tai a chyflogaeth ar gyfer Sir Fynwy. O'r rhain, dewiswyd wyth dewis o ran twf i ymgynghori arnynt, yn cynnwys 2 ddewis isel, 3 canolig a 3 uchel o ran twf, fel y nodir yn y Papur Twf a Dewisiadau Gofodol (Mehefin 2019), a gyhoeddwyd i ymgynghori arno rhwng Gorffennaf ac Awst 2019.
- 2.5 Yn sgil yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, adborth anffurfiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a ddynododd ddiffyg hyder mewn rhagdybiaethau yn cael eu harwain gan economi a phryder am CDLIN uchelgeisiol, ac ystyriaeth bellach gan y Cyngor o'r dewisiadau, gwnaed penderfyniad i gomisiynu Edge Analytics i fodelu sefyllfa ychwanegol yn cael ei harwain gan y demograffeg i ymdrin â dwy o'r prif broblemau/ heriau oedd yn wynebu'r Sir yng nghyswllt cadw/ denu grwpiau oedran oedolion iau a gwella'r gallu i gadw'r gweithlu.
- 2.6 Aseswyd yr wyth dewis twf a ddynodwyd ym Mhapur Ymgynghorol Mehefin 2019 ynghyd â'r sefyllfaoedd ychwanegol a fodelwyd gan Edge Analytics (Opsw'n Twf 5A a Opsw'n 5A+) trwy'r gwerthusiad yn gynnar yn 2020. Ar gyfer dibenion proses y gwerthusiad, tynnwyd y deg dewis twf at ei gilydd yn dri dewis penodol (Opsw'n 1 (Twf Isel), Opsw'n 2 (Twf Canolig), a Opsw'n 3 (Twf Uchel) er mwyn i werthusiad cymesur ac ystyrlon gael ei gynnal.

### Dewisiadau twf diwygiedig (Rhagfyr 2020)

- 2.7 Ers hynny mae'r Cyngor wedi ailymweld â'r cam opsiynau twf a gofodol o broses y CDLIN oherwydd bod tystiolaeth allweddol wedi ei diweddarau wedi ei chyhoeddi. Yn benodol, yn Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ragamcanion wedi eu cywiro ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd yn 2018.
- 2.8 Rhagamcanion Llywodraeth Cymru am boblogaeth ac aelwydydd yw'r man cychwyn ar gyfer tystiolaeth CDLIN am lefelau twf, ac yna gellir ychwanegu dewisiadau polisi yn ôl y gofyn, er enghraifft i sicrhau bod y problemau a ddynodwyd yn y Sir yn cael eu trin, bod amcanion yn cael eu cyflawni a'r weledigaeth yn cael ei gwireddu. Mae'r rhagamcanion wedi eu cywiro am boblogaeth ac aelwydydd ar sail 2018 a gyhoeddwyd yn 2020 yn cynnwys tystiolaeth newydd bwysig sydd angen ei hystyried i sicrhau bod y sail o dystiolaeth ar gyfer y CDLIN yn gadarn ac ar sail y wybodaeth ddiweddaraf posibl.
- 2.9 Er mwyn ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf, paratowyd Adroddiad Tystiolaeth Ddemograffig wedi'i Ddiweddarau (Tachwedd 2020) gan Edge Analytics, sy'n nodi'r ystod o ddewisiadau twf wedi eu diweddarau ar gyfer y CDLIN.<sup>3</sup>
- 2.10 Crëwyd pedwar ar ddeg o sefyllfaoedd gwahanol ar gyfer Sir Fynwy, ynghyd â phrofion sensitifrwydd pellach ar gyfer yr holl sefyllfaoedd oedd yn cael eu harwain gan ddemograffeg ac anheddau o ran ffurfio aelwydydd a chymarebau cymudo. O'r pedair ar ddeg o sefyllfaoedd gwahanol hyn, dewiswyd chwe dewis twf ar gyfer eu profi ymhellach drwy'r gwerthusiad. Yn ychwanegol at y modelu cychwynnol, mae'r chwech o opsiynau a ddewiswyd wedi bod yn destun i brofi ychwanegol i sefydlu effaith strategaeth yn cael ei harwain gan bolisi tai fforddiadwy ar ddemograffeg, anheddau, ffurfio aelwydydd a gwaith.
- 2.11 Cyflwynir y chwe dewis twf a ddynodwyd yn y Papur Opsiynau Twf a Gofodol (Rhagfyr 2020)<sup>4</sup> yn Nhabl 2.1 trosodd.

<sup>3</sup> Adroddiad Tystiolaeth Ddemograffig Wedi'i Ddiweddarau (2020) [ar-lein] ar gael yn: <https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/plan-preparation/development-of-an-evidence-base/>

<sup>4</sup> Cyngor Sir Fynwy (2020) Papur Dewisiadau Twf a Gofodol [ar-lein] ar gael yn <https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/plan-preparation/growth-and-spatial-options/>

Tabl 2.2: Dewisiadau twf Rhagfyr 2020

Dewisiadau Twf	Math o Sefyllfa	Newid yn y Boblogaeth 2018-2033	% Newid yn y Boblogaeth	Mudo Net ar Gyfartaledd y flwyddyn	Newid mewn Aelwydydd 2018-2033	% Newid mewn Aelwydydd	Annedd y flwyddyn	Annedd 2018-2033	Swyddi y flwyddyn	Swyddi 2018-2033
1. Mudo Wedi ei Gydbwyso (gyda thybiaethau polisi wedi eu hychwanegu) (Mudo Net yn Ddim (MR, CR_R), AH)	Demograffeg	-5,110	-5.4%	108	-240	-0.6%	-17	-255	-120	-1,800
2. Prif Ragamcan Llywodraeth Cymru ar sail 2018 (AH)	Demograffeg	6,047	6.4%	818	3,749	9.3%	262	3,930	208	3,120
3. Prif Ragamcan ar sail 2018 Llywodraeth Cymru (gyda thybiaethau polisi wedi eu hychwanegu) (Prif ragamcan ar sail 2018 Llywodraeth Cymru (MR, CR_R), AH)	Demograffeg	6,147	6.5%	825	4,551	11.3%	318	4,770	265	3,975
4. Cyfartaledd wedi ei arwain gan anheddau (ar sail cyfraddau cwblhau anheddau) (Cyfartaledd 5 mlynedd dan arweiniad anheddau, AH)	Annedd	10,641	11.3%	1,110	5,628	14.0%	402	6,030	364	5,460
5. Dan arweiniad poblogaeth (gyda thybiaethau polisi wedi eu hychwanegu) (PG Tymor Hir (wedi ei addasu) (5 mlynedd) (MR, CR_R), AH)	Demograffeg	12,443	13.2%	1,223	7,255	18.1%	507	7,605	481	7,215
6. Rhagamcan dan arweiniad cyflogaeth (gyda thybiaethau polisi wedi eu hychwanegu) (Newid Strwythurol Radical yn Uwch (CR_R), AH))	Cyflogaeth	17,403	18.5%	1,524	8,653	21.6%	604	9,060	642	9,630



## Lleoliad y twf

### Gwerthusiad Cychwynnol o opsiynau gofodol (Mawrth 2020)

2.12 Ystyriwyd wyth o opsiynau gofodol i ddechrau a'u cynnwys yn y rhestr hir o opsiynau gofodol (a nodir yn Atodiad 4 o'r Papur Ymgynghorol Opsiynau Twf a Gofodol, Gorffennaf 2019) ond cafodd tri eu diystyru cyn yr ymgynghoriad gan nad oeddynt yn cael eu hystyried yn ddewisiadau realistig. Yn ôl hynny, ymgynghorwyd ar bump opsiwn gofodol fel rhan o'r Ymgynghoriad Opsiynau Twf a Gofodol. Yn dilyn hyn, yn yr un modd â'r opsiynau twf, dynodwyd dau opsiwn gofodol ychwanegol yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r drwy broses y gwerthusiad yn gynnar yn 2020.


### Opsiynau gofodol diwygiedig (Rhagfyr 2020)

2.13 Fel yr amlygwyd uchod, mae'r Cyngor wedi ailymweld â'r cam opsiynau twf a gofodol o'r broses CDLIN yn dilyn cyhoeddi'r rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd ar sail 2018 wedi eu cywiro gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2020. Mae opsiynau gofodol CDLIN a ystyriwyd o'r blaen wedi eu hailasesu i ddynodi opsiynau addas i'w hystyried fel rhan o'r broses hon. Roedd dau o'r opsiynau a ystyriwyd yn ymgynghoriad 2019 yn cynnwys anheddiad newydd. Mae'r rhain wedi eu diystyru ers hynny gan fod Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod yn groes i bolisi cenedlaethol a nodir yn PPW (Rhifyn 11) sy'n nodi mai dim ond fel rhan o Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, Cynllun Datblygu Strategol neu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y dylid ystyried aneddiadau newydd. Cynhwyswyd opsiwn ychwanegol, sy'n canolbwyntio'r twf yng ngogledd y Sir, o ganlyniad i ymatebion i'r ymgynghoriad ar Opsiynau Twf a Gofodol 2019.

2.14 Felly mae cyfanswm o bedwar Opsiwn Dosbarthiad Gofodol bras yn parhau yn berthnasol ac maent wedi eu symud ymlaen fel opsiynau realistig. Disgrifir y rhain drosodd.


**Opsiwn 1: Parhau'r Strategaeth CDLI bresennol** - Byddai'r twf yn cael ei ddsbarthu o gwmpas y Sir gyda phwyslais arbennig ar y Prif Drefi, gyda pheth datblygiad yng Nglannau Hafren a pheth datblygu yn yr ardaloedd gwledig mwyaf cynaliadwy i alluogi darparu tai fforddiadwy trwy'r Sir gyfan. Byddai datblygiadau preswyl newydd yn dod gyda chyfleoedd cyflogaeth newydd, lle mae hynny'n bosibl.

**Ffigur 2.1: Opsiwn 1**




**Opsiwn 2: Dosbarthu'r Twf yn Gymesur ar draws Aneddiadau mwyaf Cynaliadwy'r Sir -** Byddai twf, gan gynnwys swyddi a thai fforddiadwy, yn cael ei ddosbarthu ar draws aneddiadau mwyaf cynaliadwy'r Sir, gyda lefel y twf yn gymesur â maint a chyfleusterau'r anheddiad, yr angen am dai fforddiadwy fel y dynodwyd yn yr Asesiad Marchnad Tai Leol, y capasiti ar gyfer twf a/neu yr angen i ddatblygiadau gynnal y gymuned.

**Ffigur 2.2: Opsiwn 2**




**Opsiwn 3: Canolbwyntio Twf ar goridor yr M4** - Byddai'r twf yn bennaf yn ne'r Sir yng Nglannau Hafren yn agos at yr M4/M48, i fanteisio ar ei chysylltiadau strategol â Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a De Orllewin Lloegr, y cyfleoedd economaidd sy'n bodoli a'r cysylltiadau seilwaith rhanbarthol, gan gynnwys trwy brif reilffordd De Cymru yng Nghyffordd Twnnel Hafren. Byddai tai fforddiadwy yn cael eu cyfeirio at yr ardaloedd cynaliadwy hynny yn ne'r Sir a ddynodwyd yn yr Aseiad Marchnad Tai Leol fel y rhai oedd â mwyaf o angen tai.

**Ffigur 2.3: Opsiwn 3**



**Opsiwn 4: Canolbwyntio Twf yng ngogledd y Sir** - Byddai'r twf yn bennaf yn yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy yng ngogledd y Sir i fanteisio ar eu cysylltiadau strategol â Blaenau'r Cymoedd a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach trwy'r A465 a thua Henffordd ar yr A449 a'r A40, ynghyd â chysylltiadau rheilffordd â Chasnewydd, Caerdydd a'r gogledd trwy linell y gorau. Byddai tai fforddiadwy yn cael eu cyfeirio at yr ardaloedd cynaliadwy hynny yng ngogledd y Sir a ddynodwyd yn yr Asesiad Marchnad Tai Leol fel y rhai oedd â mwyaf o angen tai.

**Ffigur 2.4: Opsiwn 4**



## Ardaloedd twf strategol


- 2.15 Mae'r Cyngor wedi dynodi nifer o ardaloedd twf strategol posibl ar gyfer pob un o'r Prif Aneddiadau a Glannau Hafren. Er mwyn bod yn sail i'r ardaloedd twf strategol posibl hyn cynhaliwyd asesiad ar lefel uchel o'r safleoedd a gyflwynwyd yn ystod yr Alwad Gychwynnol am Safleoedd Ymgeisiol gan y Cyngor i ddynodi'r safleoedd hynny a allai gyfrannu at gyflawni'r lefel o dwf (tai a swyddi) gofynnol i gyflawni'r Strategaeth a Ffafrir. Ar hyn o bryd dim ond safleoedd strategol ac estyniadau trefol cynaliadwy o tua 8ha o faint a throsodd sydd wedi cael eu hystyried.
- 2.16 Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr ardaloedd twf strategol a ddynodwyd yn ddamcaniaethol y potensial i fod yn sail i'r Strategaeth Ofodol, trwy gymryd y twf a chanolbwyntio'r datblygu yn yr aneddiadau ac ardaloedd hynny sy'n cael eu dynodi fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy. Mae'n bwysig nodi ar hyn o bryd na wnaed unrhyw benderfyniad gan y Cyngor o ran ardaloedd neu safleoedd twf strategol a ffafir ac na fydd yr holl safleoedd yn cael eu dewis i'w cynnwys yn y Cynllun Adnau, gan fod eu capasiti ar y cyd yn fwy na'r nifer o dai sydd eu hangen i fodloni'r ddarpariaeth dai weddilliol. Bydd Ail Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei chynnal yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth a Ffafrir a gall opsiynau eraill o ran safleoedd sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffafrir gael eu cyflwyno yr adeg honno. Bydd y dewis terfynol o safleoedd ar gyfer y Cynllun Adnau yn ddibynnol ar waith asesu manwl pellach, gan gynnwys:
- Y gallu i gyflawni'r lefel o seilwaith sy'n ofynnol i'w cefnogi;
  - Proses cynllun meistr i sicrhau eu bod yn creu lleoedd cynaliadwy, cydlynus, wedi eu dylunio'n dda fydd yn cael eu cyflawni trwy ddull creu lleoedd cadarn; ac
  - Asesiad dichonolrwydd ariannol i sicrhau bod y safleoedd yn rhai y gellir eu cyflawni yng nghyfnod y Cynllun.
- 2.17 Dynodir y dewisiadau twf strategol posibl isod.

## Y Fenni a Llan-ffwyst

2.18 Dynodwyd tair ardal dwf strategol/ opsiynau posibl ar gyfer y Fenni a Llan-ffwyst ar y cam hwn ac fe'u nodir isod a'u darlunio yn **Ffigur 2.5**:

- A. Tir i'r gogledd o'r Fenni;
- B. Tir i'r dwyrain o'r A465; a
- C. Thir rhwng y B4246 a Ffordd Blaenau'r Cymoedd.

**Ffigur 2.5: Opsiynau twf strategol y Fenni**




## Cas-gwent

2.19 Dynodwyd tair ardal dwf strategol/ opsiynau posibl ar gyfer Cas-gwent ar y cam hwn ac fe'u nodir isod a'u darlunio yn **Ffigur 2.6**:

- D. Tir i'r gogledd o Stad Bayfield;
- E. Tir rhwng Stad Bayfield a'r A48; a
- F. Thir rhwng yr A48 a'r M48.

**Ffigur 2.6: Opsiynau twf strategol Cas-gwent**






## Trefynwy

2.20 Dynodwyd tair ardal dwf strategol/ opsiynau posibl ar gyfer Trefynwy ar y cam hwn ac fe'u nodir isod a'u darlunio yn **Ffigur 2.7**:

- G. Tir i'r gorllewin o Drefynwy;
- H. Tir yng nghanol Trefynwy; a
- I. Thir i'r gogledd ddwyrain o Drefynwy.

**Ffigur 2.5: Opsiynau twf strategol Trefynwy**




## Glannau Hafren

2.21 Dynodwyd tair ardal dwf strategol/ opsiynau posibl ar gyfer Glannau Hafren ar y cam hwn ac fe'u nodir isod a'u darlunio yn **Ffigur 2.8**:

- J. Tir i'r gogledd ddwyrain o Gil-y-coed;
- K. Tir i'r gogledd orllewin o Gil-y-coed;
- L. Tir i'r gorllewin o Gil-y-coed/i'r dwyrain o Rogiet; a
- M. Thir i'r dwyrain o Gaerwent.

**Ffigur 2.6: Opsiynau twf strategol Glannau Hafren**



## Gwerthuso'r Opsiynau Gwahanol Rhesymol

- 2.22 Cynhaliwyd gwerthusiad cymharol o'r opsiynau strategol a ddynodir uchod dan bob un o themâu'r gwerthusiad a chyflwynir y canfyddiadau cryno isod.
- 2.23 Roedd yr asesiad yn archwilio effeithiau arwyddocaol tebygol ar y llinell sylfaen, gan ddefnyddio'r amcanion cynaliadwyedd a'r themâu a ddynodwyd trwy fesur cwmpas (gweler **Tabl 1.1**) fel fframwaith methodolegol. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael gwneir dyfarniad a yw'n debygol y bydd effaith arwyddocaol. Pan nad yw'n bosibl rhagweld unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar sail tybiaethau rhesymol, gwneir ymdrech i roi sylw am rinweddau cymharol y gwahanol opsiynau yn fwy cyffredinol a dynodi eu safle o ran ffafraeth. Mae'r rhif yn dynodi'r safle ac nid oes ganddo unrhyw gyswllt ag unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol. Mae hyn o gymorth, gan ei fod yn galluogi i ni wahaniaethu rhwng y gwahanol opsiynau hyd yn oed pan nad yw'n bosibl gwahaniaethu rhyngddynt o ran 'effeithiau arwyddocaol'. Er enghraifft, os rhoddir dewis yn safle 1 yna bernir ei fod yn cyflawni'n well ar gyfer thema'r gwerthusiad na'r opsiwn sydd yn safle 2.

### Lefel y twf

- 2.24 Cynhaliwyd gwerthusiad cymharol o'r chwe opsiwnis o ran lefel twf dan bob un o themâu'r gwerthusiad a chyflwynir y canfyddiadau cryno isod.

Tabl 2.3: Canfyddiadau cryno Gwerthusiad ar gyfer dewisiadau twf

Thema Gwerthusiad	Safle/ effaith arwyddocaol	Dosbarthiad a safle					
		Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4	Opsiwn 5	Opsiwn 6
Economi a chyflogaeth	Safle	5	4	3	2	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Oes - negyddol	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Oes - cadarnhaol	Oes - cadarnhaol
Poblogaeth a chymunedau	Safle	5	4	3	2	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Oes - negyddol	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Oes - cadarnhaol	Oes - cadarnhaol
Iechyd a llesiant	Safle	5	4	3	2	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Oes - negyddol	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Na	Na
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Safle	5	4	3	2	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Oes - negyddol	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Na	Na
Trafnidiaeth a symud	Safle	2	2	2	1	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr)	Safle	1	2	3	4	5	6
	Effaith arwyddocaol?	Na	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	Safle	1	2	3	4	5	6
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Amgylchedd hanesyddol	Safle	1	2	3	4	5	6
	Effaith arwyddocaol?	Na	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Tirwedd	Safle	1	2	3	4	5	6
	Effaith arwyddocaol?	Na	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Newid hinsawdd (gan gynnwys risg llifogydd)	Safle	6	5	4	3	2	1
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na	Na	Na	Na

- 2.25 Ar gyfer themâu'r gwerthusiad yn gysylltiedig ag adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, y tirwedd a'r amgylchedd hanesyddol; bydd natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn dibynnu ar ble mae'r twf a sut y mae'r datblygiad yn cael ei ddylunio/ weithredu. Wrth i lefel y twf gynyddu felly hefyd y mae'r tebygolrwydd y bydd effeithiau yn digwydd, a bydd effeithiau negyddol yn codi. Nid yw'r effeithiau gweddilliol yn y cyswllt hwn yn sicr a bydd gwell gwybodaeth trwy ystyried lleoliad y twf, sensitifrwydd y derbynwyr, a'r camau lliniaru posibl sydd ar gael. Mae dewisiadau twf is yn y pen draw yn cael eu rhoi mewn safleoedd mwy ffafriol o ran yr effeithiau amgylcheddol posibl, ond mae'n cael ei gydnabod hefyd bod gan lefelau datblygu uwch y potensial pellach o gynnis gwelliannau/cryfhau amgylcheddol a all arwain at effeithiau cadarnhaol.
- 2.26 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth i gasglu y byddai'r lefelau uwch o dwf yn arwain at effaith negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth/ geoamrywiaeth, y tirwedd a'r amgylchedd hanesyddol. O ystyried bod yr adnodd tir llwyd yn y Sir yn gyfyngedig, mae'r datblygu yn debygol o fod yn bennaf ar dir glas, gydag effeithiau negyddol gweddilliol yn debygol. Bydd arwyddocâd yr effaith hwn yn cynyddu wrth i lefel y twf gynyddu. Ar hyn o bryd mae ansicrwydd o ran effaith ar adnoddau mwynol pwysig a thir amaethyddol nes bydd lleoliad y twf wedi ei ddiffinio'n fwy manwl.
- 2.27 Yn yr un modd, ar gyfer y thema drafnidiaeth y gwerthusiad, mae dewisiadau sy'n cynnig lefel uwch o dwf yn fwy tebygol o arwain at effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd lleol trwy gynydd mewn traffig a thagfeydd; fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr effeithiau'n debygol o fod yn arwyddocaol. Ystyrir bod y cynnydd mewn gweithio o gartref o ganlyniad i'r pandemig presennol yn debygol o barhau fel tuedd yn y tymor hwy a fydd yn parhau i gefnogi lleihad mewn tagfeydd. Ymhellach, ystyrir y lefelau twf uwch o ran eu potensial i ddarparu gwelliannau o ran hygyrchedd a seilwaith ac arwain at gymunedau mwy hunangynhwysol, llai o gymudo a newid dulliau, y mae eu pwysigrwydd wedi cael ei amlygu yn ystod y pandemig. O ganlyniad, mae dewisiadau twf mwy yn cael eu gosod mewn safle mwy ffafriol yn gyffredinol.
- 2.28 Nodir Opsiwn 1 oherwydd effeithiau negyddol arwyddocaol posibl o ran themâu economi a chyflogaeth, poblogaeth a chymunedau, iechyd a llesiant a chydarddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd cymdeithasol y gwerthusiad. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod twf negyddol yn cyfyngu'n ddifrifol ar gyfleoedd i ymdrin â'r diffyg cydbwysedd demograffig tebygol fydd yn deillio o hyn a'r dirywiad economaidd. Dan y dewis hwn, mae gostyngiad mewn grwpiau oedran iau, yn arbennig rhai o oedran gwaith, yn debygol o arwain at golli swyddi, a dirywiad mewn canolfannau economaidd a lleol gan waethygu unigrwydd gwledig. Mae hyn yn neilltuol o berthnasol i rai grwpiau â nodweddion a ddiogelir, fel yr ifanc, yr henoed a'r anabl, sy'n dueddol o gael eu heffeithio yn anghymesur gan broblemau hygyrchedd ac effeithiau negyddol seilwaith trafndiaeth. Yn ychwanegol gall diffyg datblygu yn y dyfodol, nid yn unig gyfyngu'n ddifrifol ar gyfleoedd i ymdrin â'r newid mewn anghenion tai o ran mathau a daliadaeth ond mae hefyd yn debygol o yrru prisiau tai i fyny a gwaethygu problemau fforddiadwyedd.
- 2.29 Dynodir bod yr opsiynau twf uwch (Opsiynau 5 a 6) yn perfformio yn well mewn cymhariaeth â themâu'r gwerthusiad yn ymwneud a'r economi a chyflogaeth, poblogaeth a chymunedau, iechyd/llesiant a chydarddoldeb gan fod y twf ychwanegol yn cynnig cyfle i gyflawni ystod ehangach o dai newydd, cyfleoedd gwaith a seilwaith cymunedol i fodloni anghenion y Sir.

## Strategaeth ofodol

2.30 Cynhaliwyd gwerthusiad cymharol o'r pedwar opsiwn o ran strategaeth ofodol dan bob un o themâu'r gwerthusiad. Cyflwynir y canfyddiadau cryno isod.

Tabl 2.4: Crynodeb o'r canfyddiadau arfarnu ar gyfer yr opsiynau strategaeth ofodol

Themâu Gwerthusiad	Safle/ Effeithiau arwyddocaol	Dosbarthiad a safle			
		Opsiwn 1 - Parhau'r strategaeth CDLI bresennol	Opsiwn 2 - Dosbarthu Twf yn Gymesur ar draws Anheddau mwyaf Cynaliadwy'r Sir	Opsiwn 3 - Canolbwyntio Twf ar Goridor yr M4	Opsiwn 4 - Canolbwyntio Twf yng Ngogledd y Sir
Economi a Chyflogaeth	Safle	1	1	2	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Cadarnhaol	O es - Cadarnhaol	Ansicr	Ansicr
Poblogaeth a Chymunedau	Safle	1	1	2	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol	Ansicr	Ansicr
Iechyd a llesiant	Safle	1	1	3	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol	Ansicr	Ansicr
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Safle	1	1	2	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol	Ansicr	Ansicr
Trafnidiaeth a symud	Safle	1	1	2	3
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Adnoddau Naturiol	Safle	1	1	3	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	Safle	3	3	1	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Ansicr	Oes - Negyddol
	Safle	=	=	=	=

<b>Amgylchedd Hanesyddol</b>	Effaith arwyddocaol?	<b>Ansicr</b>	<b>Ansicr</b>	<b>Ansicr</b>	<b>Ansicr</b>
<b>Tirwedd</b>	Safle	<b>2</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>2</b>
	Effaith arwyddocaol?	<b>Ansicr</b>	<b>Ansicr</b>	<b>Ansicr</b>	<b>Ansicr</b>
<b>Newid Hinsawdd</b>	Safle	<b>2</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>2</b>
	Effaith arwyddocaol?	<b>Ansicr</b>	<b>Ansicr</b>	<b>Ansicr</b>	<b>Ansicr</b>

- 2.31 Canfu'r gwerthusiad mai ychydig sydd i wahaniaethu rhwng yr opsiynau dewisiadau ar hyn o bryd o ran thema amgylchedd hanesyddol y gwerthusiad. Mae hyn gan ystyried bod gan yr holl opsiynau y potensial i arwain at effeithiau negyddol trwy gyfeirio datblygiadau i ardaloedd sy'n sensitif o ran cyfyngiadau treftadaeth; er bod hynny mewn ardaloedd gwahanol o'r Sir. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod y gellid darparu camau lliniaru a bod gan ddatblygu hefyd y potensial i gael effeithiau cadarnhaol fel camau gwelliant/ cryfhau amgylcheddol y gellir eu sicrhau ar raddfa'r prosiect. Bydd natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn ddibynol ar union leoliad a graddfa'r datblygiad
- 2.32 Er y gellir llunio casgliadau tebyg yng nghyswllt bioamrywiaeth (o ystyried presenoldeb dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol trwy'r Fwrdeistref Sirol i gyd), gellir gwahaniaethu rhwng yr opsiynau o ran oblygiadau niwtraliaeth maetholion ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwy ac Afon Wysg. Daeth Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDLIN (2021) i'r casgliad bod safleoedd preswyl neu waith posibl yn y Fenni a Threfynwy yn debygol o gael oblygiadau o ran niwtraliaeth maetholion, oherwydd eu bod yn cael eu gwasanaethu gan weithiau trin dŵr gwastraff sy'n gollwng i rannau uchaf y ddwy Ardal Cadwraeth Arbennig. Felly Opsiynau 1 a 2, sy'n cyfeirio twf i'r Prif Aneddiadau hyn (ac yna Opsiwn 4), felly sydd yn perfformio waethaf yn gyffredinol.
- 2.33 O ran y themâu tirwedd a newid hinsawdd, mae Opsiwn 3 yn cyfeirio datblygiadau i ardaloedd lle mae llai o risg o lifogydd ac sy'n llai sensitif o ran tirwedd ac felly ystyrir eu bod yn perfformio yn well mewn cymhariaeth â'r opsiynau eraill. Mae'r holl opsiynau eraill yn canolbwyntio'r datblygu mewn ardaloedd sy'n rhai â risg uchel o lifogydd (er y rhagwelir y byddai ardaloedd risg uchel o lifogydd yn cael eu hosgoi yn unol â pholisi cenedlaethol a phrofi dilynol) ac yn agos at ddynodiadau tirwedd gyda thebygrwydd cryfach y bydd effaith negyddol yn digwydd. O ystyried nad yw union leoliad y twf yn hysbys a bod rhagor o waith am y dystiolaeth yn cael ei gyflawni o ran sensitifrwydd tirwedd, canfyddir bod yr holl opsiynau yn cael effeithiau ansicr o ran y themâu tirwedd a newid hinsawdd.
- 2.34 O ran adnoddau naturiol, mae'n anodd dynodi unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y dewisiadau yng nghyswllt adnoddau dŵr a'i ansawdd. Opsiynau 1, 2 a 4, sy'n perfformio orau o ran defnyddio tir llwyd a diogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas, a sicrhau nad yw ansawdd yr aer yn gwaethygu trwy'r Sir gyfan. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod bod y cyfleoedd ar gyfer adfywio tir llwyd yn gyfyngedig felly yn y pen draw bydd y rhan fwyaf o'r twf ar dir glas ac o bosibl ar dir amaethyddol. Mae Opsiwn 3 yn perfformio'n waeth o ystyried y gall hefyd arwain at golli cyfran sylweddol o dir glas/ tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas a bod ganddo'r potensial i gael effaith niweidiol ar yr Ardal Diogelu Mwynau Calchfaen sy'n bresennol i'r de o'r Sir. Mae gan yr holl opsiynau'r potensial ar gyfer effaith negyddol arwyddocaol mewn cymhariaeth â'r thema adnoddau naturiol trwy golli tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas, er ei fod yn cael ei gydnabod bod elfen o ansicrwydd ar hyn o bryd nes bydd union leoliad y datblygu yn hysbys.
- 2.35 Mae Opsiynau 1 a 2 yn perfformio yn fwy cadarnhaol a gwelir bod ganddynt y potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol arwyddocaol yn y tymor hir mewn cymhariaeth â themâu'r gwerthusiad sy'n ymwneud â phoblogaeth/ cymunedau, iechyd/ llesiant, economi/ gwaith a chydarddoldeb mewn cymhariaeth â

dewisiadau eraill. Maent yn canoli'r twf ar yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy lle mae mwyaf o angen a gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, gwaith sy'n bodoli a chyfleusterau/ gwasanaethau. Amlygwyd pwysigrwydd lefel uchel o hygyrchedd lleol at fannau agored, gwasanaethau a chyfleusterau trwy'r pandemig presennol. Dylid nodi bod rhai gwahaniaethau bach rhwng opsiynau 1 a 2 o ran sut y mae'r twf yn cael ei ddsbarthu yn ystod cyfnod y Cynllun, ond nid yw'r gwahaniaethau hyn yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau i un dewis gael ei osod mewn safle uwch neu is na'r llall mewn cymhariaeth â themâu'r gwerthusiad y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y paragraff hwn.

- 2.36 Mae Opsiwn 3 yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Metro De Ddwyrain Cymru, a'r twf economaidd parhaus yn rhanbarth Bryste/ De Orllewin Lloegr. Tra bod Opsiwn 4 yn canolbwyntio twf ar yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy yng ngogledd y Sir gan fanteisio ar y cyfleoedd yn gysylltiedig â Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yr A465 a thua Henffordd ar yr A449 a'r A40 ynghyd â chysylltiadau rheilffordd â Chasnewydd, Caerdydd a'r gogledd trwy linell y gororau. Fodd bynnag, byddai twf cyfyngedig yng ngweddill y Sir dan Ddewis 3 a Opsiwn 4 yn cyfyngu twf economaidd yn y Sir yn ehangach, ac ni fyddai'n cynorthwyo i gynnal y cymunedau sy'n bodoli yn Sir Fynwy; gan waethygu'r problemau demograffig sy'n bodoli a lefel y cymudo allan o'r Sir.
- 2.37 Rhoddir ystyriaeth hefyd trwy gydol y gwerthusiad o gyhoeddi Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040 (Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2021) sy'n dynodi dymuniad i ddynodi llain las "*o gwmpas Casnewydd a rhannau dwyreiniol y rhanbarth*". Rhagwelir y bydd yn cynnwys rhan fawr o dde Sir Fynwy a fyddai, er nad yw'n cynnwys unrhyw un o brif drefi Sir Fynwy, os caiff ei weithredu yn cyfyngu'n sylweddol ar dwf yn y dyfodol yn y rhan hon o'r Sir. Byddai Opsiwn 4 yn cydfynd â chyfeiriad y ddogfen Cymru'r Dyfodol, ac felly mae'n perfformio'n gadarnhaol o ran hwyluso twf sy'n gyson â pholisi cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylid ystyried anghenion tymor hwy wrth ystyried terfynau'r llain las. I'r gwrthwyneb byddai Opsiwn 3 yn cyfeirio twf i'r de lle cynigir y llain las yn y ddogfen Cymru'r Dyfodol. Gan fod yr holl ddewisiadau eraill yn ceisio gwasgaru twf trwy'r Sir i gyd, ac nad oes lleoliad wedi ei ddiffinio eto ar gyfer y llain las, mae'n anodd llunio unrhyw gasgliadau diffiniol ar natur a phwysigrwydd yr effeithiau ar hyn o bryd.



## Ardaloedd twf strategol

2.38 Cynhaliwyd gwerthusiad cymharol o'r holl ddewisiadau twf strategol posibl dan bob un o themâu'r gwerthusiad a chyflwynir y canfyddiadau cryno isod. Dylid nodi, er mwyn caniatáu gwerthusiad teg a chymharol tybiwyd y gallai pob dewis twf strategol gyflawni'r un cwantwm a math o ddatblygiad.

### Y Fenni

**Tabl 2.52: Crynodeb o'r canfyddiadau gwerthuso ar gyfer yr ardaloedd twf strategol o gwmpas y Fenni**

Themâu Gwerthusiad	Safle/ effaith arwyddocaol	Dosbarthiad a safle		
		Opsiwn A	Opsiwn B	Opsiwn C
Economi a Chyflogaeth	Safle	1	2	3
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Poblogaeth a Chymunedau	Safle	1	2	3
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol
Iechyd a Llesiant	Safle	1	2	2
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Safle	2	3	1
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Trafnidiaeth a symud	Safle	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Adnoddau Naturiol	Safle	1	2	3
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	Safle	1	1	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol
Amgylchedd Hanesyddol	Safle	2	1	3
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Tirwedd	Safle	3	1	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Ansicr
Newid Hinsawdd	Safle	2	1	3
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr

2.39 Ni ddynodwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng opsiynau ar gyfer thema Trafnidiaeth a Symud.

2.40 Mae'r holl opsiynau yn perfformio'n gadarnhaol mewn cymhariaeth â themâu Poblogaeth a Chymunedau, Iechyd a Llesiant, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol a Trafnidiaeth a Symud, o ystyried bod yr opsiynau wedi eu cysylltu a phellter rhesymol o ganol tref y Fenni, ei gwasanaethau a'i chyfleusterau, a theithio cynaliadwy. Opsiwn A sy'n perfformio'n fwyaf cadarnhaol o'r opsiynau ar gyfer y mwyafrif o themâu'r gwerthusiad a drafodir uchod o ystyried mai'r opsiwn hwn sydd yn y lleoliad gorau yn y cyswllt hwn; gyda Opsiwn B ac C yn cael eu gwahanu oddi wrth ganol y dref gan yr A465. Fodd bynnag Opsiwn C sy'n perfformio'n fwyaf cadarnhaol mewn cymhariaeth â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a

Chynhwysiant Cymdeithasol gan mai'r opsiwn hwn sy'n cefnogi cymunedau difreintiedig i'r gorllewin o'r dref orau.

- 2.41 Mae'r holl opsiynau yn perfformio'n negyddol mewn cymhariaeth â thema Adnoddau Naturiol o ystyried y byddai'r holl opsiynau yn arwain at gollu tir glas a thir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas, ac na fyddent yn cyfrannu tuag at hyrwyddo'r defnydd o dir llwyd. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod bod y cyfleoedd yn y Sir ar gyfer datblygu tir llwyd a datblygu ar dir amaethyddol is ei safon yn gyfyngedig. Opsiwn A sy'n perfformio orau o ran y thema hon, gan mai'r dewis hwn sydd â'r mynediad gorau i ganol y dref.
- 2.42 O ran y thema Bioamrywiaeth, mae'r opsiynau yn cael eu cyfyngu o ran asedau/safleoedd wedi eu dynodi yn rhyngwladol/ genedlaethol, gyda'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol tymor hir arwyddocaol. Yn drawiadol, rhagwelir effeithiau negyddol arwyddocaol i'r holl ddewisiadau oherwydd yr oblygiadau i niwtraliaeth maetholion ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg. O ran gosod yr opsiynau yn ôl eu safle, Opsiwn C sy'n perfformio waethaf gan ei fod o fewn 200m i Ardal Cadwraeth Arbennig/Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Afon Wysg, ond o ystyried y llwybrau effaith ychwanegol a ddynodwyd trwy'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig (hamdden a chyfanswm, lefel a llif y dŵr), ystyrir bod gan Opsiynau A a B hefyd y potensial i gael effaith ar y safle hwn sydd wedi cael dynodiad Ewropeaidd.
- 2.43 Cyfyngir y dewisiadau hefyd o ran asedau/safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol/ genedlaethol dan y themâu Tirwedd ac Amgylchedd Hanesyddol. Yn yr un modd â bioamrywiaeth, Opsiwn C sy'n perfformio waethaf mewn cymhariaeth â thema Amgylchedd Hanesyddol o ystyried ei agosatrywydd at Safle Treftadaeth Byd Diwydiannol Blaenafon a'r potensial i effeithio ar dirweddau treftadaeth a ddynodwyd yn rhyngwladol a chenedlaethol. Mae i Opsiwn A hefyd y potensial o arwain at effeithiau negyddol yn y cyswllt hwn. O ran Tirwedd, Opsiwn A sy'n perfformio waethaf oherwydd ei effaith posibl ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ei nodwedd agored a'i leoliad ar ochr bryn. Opsiwn A sy'n perfformio waethaf hefyd o ystyried ei sensitifrwydd 'uchel/canolig' i ddatblygiad preswyl; fel y nodir yn Astudiaeth Diweddariad Sensitifrwydd Tirwedd Sir Fynwy (2020). Dynodir bod gan Opsiwn B hefyd sensitifrwydd 'uchel/canolig' i ddatblygiadau preswyl.
- 2.44 Mae arwyddocâd cyffredinol yr effeithiau mewn cymhariaeth â themâu Bioamrywiaeth, Tirwedd ac Amgylchedd Hanesyddol yn ansicr ar hyn o bryd, a byddant yn ddibynnol ar ddyluniad/patrwm a gweithrediad y camau lliniaru penodol. Yn benodol, yng nghyswllt y broblem sy'n dod i'r golwg o ran niwtraliaeth maetholion yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England yn cynghori y bydd raid i'r holl ddatblygiadau preswyl sy'n cael eu cyflwyno yn nalgylch hydrolegol yr Ardal Cadwraeth Arbennig afonol hyn fod yn niwtral o ran ffosforws ac yn cael eu cefnogi gan gyllidebau maetholion. Nodir hefyd bod potensial i effeithiau cadarnhaol gael eu cyflawni; h.y. trwy well hygyrchedd at a gwella asedau a ddynodwyd.
- 2.45 Opsiwn C sy'n perfformio waethaf o'r opsiynau yng nghyswllt y thema Newid Hinsawdd y Gerthusiad, o ystyried bod cyfran sylweddol o Opsiwn C ym Mharthau Llifogydd B/C, gyda'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol tymor hir. Fodd bynnag, fel uchod, ar gyfer yr holl opsiynau, nid yw'r effeithiau o ran newid yn yr hiinsawdd yn sicr ar hyn o bryd.

## Cas-gwent

**Tabl 2.6: Crynodeb o'r canfyddiadau gwerthuso ar gyfer yr ardaloedd twf strategol o gwmpas Cas-gwent**

Themâu Gwerthusiad	Safle/ effaith arwyddocaol	Dosbarthiad a safle		
		Opsiwn D	Opsiwn E	Opsiwn F
Economi a Chyflogaeth	Safle	3	2	1
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Poblogaeth a Chymunedau	Safle	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol
Iechyd a Llesiant	Safle	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Safle	2	1	3
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Trafnidiaeth a symud	Safle	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Adnoddau Naturiol	Safle	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	Safle	1	2	3
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Amgylchedd Hanesyddol	Safle	1	1	2
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Oes - Negyddol
Tirwedd	Safle	1	2	3
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol
Newid Hinsawdd	Safle	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na

- 2.46 Ni ddynodwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng opsiynau ar gyfer themâu Poblogaeth a Chymunedau, Trafnidiaeth a Symud, Iechyd a Llesiant, Adnoddau Naturiol na Newid Hinsawdd.
- 2.47 Mae'r holl opsiynau yn perfformio'n gadarnhaol mewn cymhariaeth â themau Economi a Gwaith, Poblogaeth a Chymunedau, Iechyd a Llesiant, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol a Trafnidiaeth a Symud. O ran Economi a Chyflogaeth Opsiwn F sy'n perfformio'n fwyaf cadarnhaol o ystyried ei fod â chysylltiad da â choridor yr M4, Pont Hafren, a chyfluoedd gwaith i'r de o'r dref. O ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol, Opsiwn E sy'n perfformio orau gan ei fod yn cynnig gwell mynediad i grwpiau bregus i ganol y dref; gan gefnogi gwelliant o ran amddifadedd.
- 2.48 Mae'r holl opsiynau yn perfformio'n negyddol mewn cymhariaeth â thema Adnoddau Naturiol o ystyried y byddai'r holl opsiynau yn arwain at gynnydd yn y defnydd o gerbydau yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Cas-gwent, a'r ffaith y byddai tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas/tir glas yn cael ei gollu. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod bod y cyfluoedd yn y Sir ar gyfer datblygu tir llwyd a datblygu ar dir amaethyddol is ei safon yn gyfyngedig.

- 2.49 O ran themâu Bioamrywiaeth, Tirwedd ac Amgylchedd Hanesyddol; mae'r opsiynau i gyd yn cael eu cyfyngu o ran asedau/safleoedd wedi eu dynodi yn rhyngwladol/ genedlaethol, gyda'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol tymor hir arwyddocaol. O ran bioamrywiaeth, o ystyried y llwybrau effaith a ddynodwyd trwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (2019), mae'r holl ddewisiadau'n perfformio yr un fath o ran eu heffaith ar Ardal Cadwraeth Arbennig / Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig / Gwarchodfa Natur Genedlaethol ac Awdurdod Cadwraeth Arbennig / Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Afon Gwy. Opsiwn F yw'r un sy'n perfformio waethaf mewn cymhariaeth â thema Bioamrywiaeth gan fod ardaloedd o Goetir Hynafol (a chynefinoedd eraill a rhywogaethau cysylltiedig) yn bresennol yn yr opsiwn, gyda'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol tymor hir.
- 2.50 Opsiwn F hefyd sy'n perfformio waethaf mewn cymhariaeth â'r themâu Amgylchedd Hanesyddol a Thirwedd o ystyried bod yr opsiwn yn disgyn mewn ardal gadwraeth ac yn cynnwys 16 o adeiladau rhestredig; ac, yr un fath â'r dewisiadau i gyd, mae ganddo'r potensial o effeithio ar Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, gyda sensitifrwydd mawr i ddatblygu tai, a ddynodwyd trwy'r Astudiaeth Ddiweddarau Sensitifrwydd Tir (2020). Mae Opsiwn E yn perfformio'n llai positif na Opsiwn D gan ei fod yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd tirwedd sensitifrwydd uchel/canolig. Opsiwn D sy'n perfformio orau o ran tirwedd, gan fod â sensitifrwydd canolig i ddatblygiad preswyl. Mae'r potensial i opsiynau arwain at effeithiau arwyddocaol o ran themâu bioamrywiaeth/ tirwedd/ amgylchedd hanesyddol yn ansicr ar hyn o bryd, a bydd yn ddibynnol ar ddyluniad/ patrwm a gweithrediad camau lliniaru penodol. Nodir hefyd bod potensial i effeithiau cadarnhaol gael eu cyflawni; h.y. trwy enillion bioamrywiaeth, a gwella asedau a ddynodwyd. Ar gyfer yr holl opsiynau, nid yw'r effeithiau o ran Newid yn yr Hinsawdd yn sicr ar hyn o bryd.

## Trefynwy

Tabl 2.7: Crynodeb o'r canfyddiadau gwerthuso ar gyfer yr ardaloedd twf strategol o gwmpas Trefynwy

Themâu Gwerthusiad	Safle/ effaith arwyddocaol	Dosbarthiad a safle		
		Opsiwn G	Opsiwn H	Opsiwn I
Economi a Chyflogaeth	Safle	2	1	3
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Poblogaeth a Chymunedau	Safle	2	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol
Iechyd a Llesiant	Safle	1	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Safle	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Trafnidiaeth a symud	Safle	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na
Adnoddau Naturiol	Safle	1	2	3
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	Safle	1	1	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol
Amgylchedd Hanesyddol	Safle	1	2	3
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Tirwedd	Safle	1	2	2
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol
Newid Hinsawdd	Safle	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr

- 2.51 Ni ddynodwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng opsiynau ar gyfer themâu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol, Trafnidiaeth a Symud, a Newid yn yr Hinsawdd.
- 2.52 Mae'r holl ddewisiadau'n perfformio'n gadarnhaol mewn cymhariaeth â themâu Economi a Gwaith, Poblogaeth a Chymunedau, Iechyd a Llesiant, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol a Trafnidiaeth a Symud, o ystyried bod yr opsiynau wedi eu cysylltu a phellter rhesymol o ganol tref Trefynwy, ei gwasanaethau a'i chyfleusterau, a theithio cynaliadwy. Opsiwn H sy'n perfformio'n fwyaf cadarnhaol o'r opsiynau ar gyfer y themâu Economi a Gwaith, Poblogaeth a Chymunedau, a Iechyd a Llesiant o ystyried mai'r opsiwn hwn sydd yn y lleoliad gorau yn y cyswllt hwn. Mae Opsiwn G hefyd yn perfformio'n dda o ystyried ei leoliad yn agos at safle cyflogaeth Stad Wonastow.
- 2.53 Mae'r holl opsiynau yn perfformio'n negyddol mewn cymhariaeth â thema Adnoddau Naturiol o ystyried y byddai'r holl opsiynau yn arwain at gollu tir glas a thir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas, ac na fyddent yn cyfrannu tuag at hyrwyddo'r defnydd o dir llwyd. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod bod y cyfleoedd yn y Sir ar gyfer datblygu tir llwyd a datblygu ar dir amaethyddol is ei safon yn gyfyngedig. Opsiwn G sy'n perfformio orau yn y cyswllt hwn gan mai dyma'r opsiwn sydd wedi ei gyfyngu leiaf o ran tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas.

Opsiwn I sy'n perfformio waethaf o ystyried y byddai'n arwain at golli tir amaethyddol o safon uwch mewn cymhariaeth â Opsiwn H.

- 2.54 O ran thema Bioamrywiaeth, mae'r opsiynau i gyd yn cael eu cyfyngu o ran asedau/safleoedd wedi eu dynodi yn rhyngwladol/ genedlaethol, gyda'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol tymor hir arwyddocaol. Yn drawiadol, rhagwelir effeithiau negyddol arwyddocaol i'r holl ddewisiadau oherwydd yr oblygiadau i niwtraliaeth maetholion ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwy. O ran rhoi'r dewisiadau yn eu trefn, o ystyried pa mor agos yw Opsiwn I at Ardal Cadwraeth Arbennig / Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Afon Gwy ac Ardal Cadwraeth Arbennig / Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Dyffryn Gwy a'r bioamrywiaeth sy'n bresennol yn yr opsiwn ei hun, Opsiwn I sy'n perfformio waethaf yn gyffredinol.
- 2.55 Cyfyngir y dewisiadau hefyd o ran asedau/ safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol/ genedlaethol dan themâu Tirwedd ac Amgylchedd Hanesyddol. Fel uchod, yn ymwneud â bioamrywiaeth, Opsiwn I sy'n perfformio waethaf mewn cymhariaeth â thema Amgylchedd Hanesyddol gan fod nifer o asedau treftadaeth yn bresennol yn agos at yr opsiwn (Ardal Gadwraeth Trefynwy (Dixton) i'r de ddwyrain o'r opsiwn (sy'n cynnwys dau heneb rhestredig a phump o adeiladau rhestredig), a'r adeiladau rhestredig i'r gogledd orllewin o'r Opsiwn ar ochr arall yr A466).
- 2.56 Mae Opsiynau I a J yn perfformio yr un fath mewn cymhariaeth â thema Tirwedd o ystyried bod gan y ddau sensitifrwydd uchel/canolig i ddatblygiad preswyl, a'r ddau wedi eu cyfyngu gan ddynodiadau tirwedd (mae Opsiwn I yn agos at Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol neu Arbennig, tra bod Opsiwn H wedi ei ddynodi yn y CDLI presennol fel 'Ardal o bwysigrwydd o ran amwynderau').
- 2.57 Mae arwyddocâd cyffredinol yr effeithiau mewn cymhariaeth â themâu Bioamrywiaeth, Tirwedd ac Amgylchedd Hanesyddol yn ansicr ar hyn o bryd, a byddant yn ddibynnol ar ddyluniad/patrwm a gweithrediad y camau lliniaru penodol. Yn benodol, yng nghyswllt y broblem sy'n dod i'r golwg o ran niwtraliaeth maetholion yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwy, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England yn cynghori y bydd raid i'r holl ddatblygiadau preswyl sy'n cael eu cyflwyno yn nalgylch hydrolegol yr Ardal Cadwraeth Arbennig afonol hyn fod yn niwtral o ran ffosforws ac yn cael eu cefnogi gan gyllidebau maetholion. Nodir hefyd bod potensial i effeithiau cadarnhaol gael eu cyflawni; h.y. trwy well hygyrchedd at a gwella asedau a ddynodwyd.
- 2.58 Ar gyfer yr holl opsiynau, nid yw'r effeithiau o ran newid yn yr hinsawdd yn sicr ar hyn o bryd.

## Glannau Hafren

**Tabl 2.8: Crynodeb o ganfyddiadau'r gwerthusiad ar gyfer yr ardaloedd twf strategol o gwmpas Glannau Hafren**

Themâu Gwerthusiad	Safle/ Effeithiau arwyddocaol	Dosbarthiad a safle			
		Opsiwn J	Opsiwn K	Opsiwn L	Opsiwn M
Economi a Chyflogaeth	Safle	2	2	1	3
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na	Na
Poblogaeth a Chymunedau	Safle	1	2	1	3
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol
Iechyd a Llesiant	Safle	2	2	1	3
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na	Na
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Safle	2	3	1	4
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na	Na
Trafnidiaeth a symud	Safle	2	2	1	3
	Effaith arwyddocaol?	Na	Na	Na	Na
Adnoddau Naturiol	Safle	2	2	1	2
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol	Oes - Negyddol
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	Safle	3	2	3	1
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Amgylchedd Hanesyddol	Safle	3	2	1	2
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Na	Ansicr
Tirwedd	Safle	2	3	4	1
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Newid yn yr Hinsawdd	Safle	1	1	3	2
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr	Ansicr

2.59 Mae'r holl opsiynau yn perfformio'n gadarnhaol mewn cymhariaeth â themâu Poblogaeth a Chymunedau, Iechyd a Llesiant, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol a Trafnidiaeth a Symud, o ystyried bod gan yr opsiynau i gyd gysylltiad da i resymol â gwasanaethau a chyfleusterau trwy ardal Glannau Hafren (canol tref Cil-y-coed yn benodol), a mynediad i'r rhwydwaith trafndiaeth strategol. Mae gan yr opsiynau'r potensial i fanteisio ar gyfleoedd teithio cynaliadwy yn yr aneddiadau allweddol ar Lannau Hafren (yn benodol Cil-y-coed a gorsaf cyffordd Twannel Hafren yn Rogiet), yn ychwanegol at ddefnyddio coridor yr M4. Bydd hyn yn cynnig cyswllt â marchnadoedd cyflogaeth ehangach, gan gynnwys cyfleoedd yn gysylltiedig â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Metro De Ddwyrain Cymru. Er y rhagwelir effeithiau cadarnhaol trwy'r holl opsiynau, Opsiwn M sy'n perfformio'n lleiaf da o'r opsiynau o ystyried bod ei gysylltiadau â chanolfannau Glannau Hafren, y gwasanaethau a'r

- cyfleusterau yn gymharol wael; a bod y potensial i fanteisio ar y rhwydwaith ffyrdd strategol yn gymharol gyfyng.
- 2.60 O ran gwahaniaethu rhwng Opsiwn J-L ar gyfer themâu uchod y Gwerthusiad, Opsiwn L sy'n perfformio orau o ystyried ei leoliad ar hyd coridor yr M4, rhwng Cil-y-coed a Rogiet, a'i allu i fanteisio ar y seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy ac annog newid dull teithio. Mae Opsiwn J a K yn perfformio'n gymharol debyg, o ystyried mynediad rhesymol at wasanaethau, cyfleusterau a'r cyfleoedd rhwydwaith ffordd strategol/ trafnidiaeth gynaliadwy.
- 2.61 Mae'r holl opsiynau yn perfformio'n negyddol mewn cymhariaeth â thema Adnoddau Naturiol o ystyried y byddai'r holl opsiynau yn arwain at gollu tir glas a thir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas, ac na fyddent yn cyfrannu tuag at hyrwyddo'r defnydd o dir llwyd. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod bod y cyfleoedd yn y Sir ar gyfer datblygu tir llwyd a datblygu ar dir amaethyddol is ei safon yn gyfyngedig. Opsiwn L sy'n perfformio orau mewn cymhariaeth â'r thema hon gan ei fod mewn lleoliad da o ran y potensial i ddefnyddio teithio cynaliadwy a gwella ansawdd aer; hwn sydd wedi ei gyfyngu leiaf o ran gorchuddio tir amaethyddol Graddfa 1.
- 2.62 O ran themâu Bioamrywiaeth, Tirwedd ac Amgylchedd Hanesyddol; mae'r opsiynau yn cael eu cyfyngu o ran asedau/safleoedd wedi eu dynodi yn rhyngwladol/ genedlaethol, gyda'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol tymor hir arwyddocaol. Opsiwn J ac L sy'n perfformio waethaf o ran thema Bioamrywiaeth o ystyried bod Ardal Gwarchodaeth Arbennig / Adral Cadwraeth Arbennig / Safle RAMSAR/ Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Môr Hafren o fewn 900m ac 1.2km o'r opsiynau yn eu tro. Opsiwn M sy'n cael ei ddynodi fel yr un sy'n perfformio orau, o ystyried mai hwn sydd wedi ei gyfyngu leiaf o'r opsiynau o ran yr effaith bosibl ar safleoedd wedi eu dynodi o ran bioamrywiaeth, a gwerth cyffredinol o ran bioamrywiaeth.
- 2.63 Opsiwn J hefyd sy'n perfformio waethaf yng nghyswllt thema Amgylchedd Hanesyddol o ystyried y gall arwain at beth datblygu yn Ardal Gadwraeth Cil-y-coed, sydd hefyd yn cynnwys adeilad rhestredig Gradd I a Heneb Restredig Castell Cil-y-coed; ac y byddai'n arwain at gollu ardaloedd mawr o dir glas/ manau agored yn ardal y castell sydd hefyd yn Barc Gwledig. Opsiwn L sydd leiaf sensitif o ran yr amgylchedd hanesyddol. Opsiwn J a K sy'n perfformio waethaf o ran tirwedd, o ystyried bod y ddau wedi eu dynodi yn yr Astudiaeth Diweddarau Sensitifrwydd Tirwedd (2020) fel rhai â 'sensitifrwydd canolig-uchel' i ddatblygu tai. Byddai Opsiwn K yn ymestyn y datblygiadau i'r gogledd orllewin o'r M48 i'r tirwedd agored; tra byddai Opsiwn J yn ymestyn anheddiad Cil-y-coed i'r gogledd ddwyrain, tuag at anheddiad Crug ac ymestyn y datblygiad i'r gogledd o Barc Gwledig Castell Cil-y-coed (sydd hefyd yn ardal gadwraeth). Mae i Opsiwn L sensitifrwydd canolig i ddatblygiad preswyl, a gall arwain at gyfuno Cil-y-coed a Rogiet, gan gollu man agored aml-bwrpas a 'lletem las' ddynodedig. Opsiwn M sy'n perfformio orau yn y cyswllt hwn, er bod potensial am fân effeithiau negyddol gweddilliol.
- 2.64 Mae'r potensial i'r opsiynau arwain at effeithiau arwyddocaol mewn cymhariaeth â themâu Bioamrywiaeth, Tirwedd ac Amgylchedd Hanesyddol yn ansicr ar hyn o bryd, a byddant yn ddibynnol ar ddyluniad/patrwm a gweithrediad y camau lliniaru penodol. Nodir hefyd bod potensial i effeithiau cadarnhaol gael eu cyflawni; h.y. trwy enillion bioamrywiaeth, a gwella asedau a ddynodwyd.
- 2.65 Opsiwn L sy'n perfformio waethaf o'r opsiynau yng nghyswllt thema Newid yn yr Hinsawdd, o ystyried bod cyfran sylweddol o Opsiwn L ym Mharthau Llifogydd B/C, gyda'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol tymor hir. Fodd bynnag, fel uchod, ar gyfer yr holl opsiynauau, nid yw'r effeithiau o ran Newid yn yr Hinsawdd yn sicr ar hyn o bryd.



## Datblygu'r Strategaeth a Ffafir

2.66 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ymateb y Cyngor i'r opsiynau a werthuswyd a rhesymau'r Cyngor dros ddewis y dull a ffafir ganddo yng ngoleuni gwerthusiad o'r dewisiadau eraill a ffactorau eraill.

## Amlinelliad o resymau'r Cyngor dros ddewis y strategaeth a ffafir

2.67 Dylid nodi bod rhesymau'r Cyngor dros symud ymlaen neu wrthod dewisiadau strategol yn cael eu cyflwyno yn y Papur Cefndir Opsiynau Twf a Gofodol (Mehefin 2021) a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffafir. Ailadroddir y rhesymau hyn yn y tablau isod. Ni wnaed penderfyniad eto o ran yr ardaloedd twf strategol a ffafir, o ganlyniad ni chyflwynir rhesymau ar gyfer dewis neu wrthod ardaloedd twf strategol yn y bennod hon.

## Lefel y twf

Tabl 2.9: Amlinellwch y rhesymau dros ddewis y dewis twf a ffafir

Opsiyau (math)	Amlinellu rhesymau
<p><b>Opsiw 1:</b>  <b>Mudo Wedi ei Gydbwysu (gyda thybiaethau polisi wedi eu hychwanegu)</b></p>	<p>Byddai defnyddio'r dewis mudo wedi ei gydbwysu fel strategaeth dwf y CDLIN yn arwain at ofyn am dai gweddilliol negyddol ac yn cael effaith niweidiol ar uchelgais strategol y Cyngor o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Byddai'r dewis hwn yn mynd yn groes i elfennau allweddol arfaethedig amcanion y CDLIN ac o'r holl ddewisiadau hwn sy'n perfformio waethaf mewn cymhariaeth ag amcanion y gwerthusiad. Ni fyddai'r cyfuniad o ostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith a chynnydd yn y cohort 60+ yn gyrru twf/ffyniant economaidd; yn hytrach byddai'n arwain at lif o weithwyr a phreswylwyr allan o'r Sir. Byddai hyn yn arwain at oblygiadau o ran cadw pobl iau yn y Sir i fyw a gweithio. Dangosodd y pandemig presennol bwysigrwydd sicrhau bod ein cymunedau'n gytbwys ac yn gynaliadwy yn gymdeithasol, yn glir, yn arbennig o ran demograffeg. Ni fyddai'r dewis hwn yn ymdrin â'r diffyg cydbwysedd demograffig yn y Sir.</p> <p>Byddai'r diffyg cartrefi newydd hefyd yn cael effaith negyddol ar ddarparu tai fforddiadwy. Gallai cyflenwad cyfyngedig o dai arwain at brisiau tai uwch, gan wneud y Sir hyd yn oed yn llai fforddiadwy i'r boblogaeth iau o oedran gwaith a pharhau'r diffyg cydbwysedd demograffig. Byddai gostyngiad yn y boblogaeth o oedran gwaith yn y Sir gyda gweithlu llai yn methu cynnal y ddarpariaeth waith leol yn arwain at golli swyddi ac effaith negyddol ar yr economi leol. Ychydig o gyfle y byddai hyn yn ei gynnig i greu economi ffyniannus, wedi ei chysylltu'n dda, amrywiol, sy'n un o amcanion allweddol y CDLIN ac mae wedi ei amlygu fel rhywbeth sydd o bwysigrwydd mawr yng ngoleuni'r pandemig presennol. Byddai'r demograffig anghytwys a'r diffyg tai a chyfleoedd economaidd yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ddiben creiddiol o lunio cymunedau cynaliadwy a gwydn sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.</p> <p>Mae'n cael ei gydnabod, gan nad yw'r dewis twf hwn yn cynnig unrhyw dwf pellach ei fod yn debygol o osgoi effeithiau arwyddocaol ar ffactorau yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, rhaid i'r CDLIN ymdrin â'r argyfwng newid yn yr hinsawdd gan hefyd gyflawni ar agweddau llesiant eraill y Sir, fel angen am dai, ffyniant economaidd, a chymunedau cydlynus. Mae'r ymdrechion i daclo newid yn yr hinsawdd yn amrywiol iawn a bydd angen dull cydlynus o ddatblygu gan gynnwys agweddau fel teithio llesol, seilwaith gwyrdd, defnydd effeithiol o adnoddau a thir a gallu gwrthsefyll llifogydd.</p>
<p><b>Opsiw 2: Prif Ragamcan Llywodraeth Cymru ar sail 2018</b></p>	<p>Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (Chwefror 2021) yn nodi bod Rhagamcanion Aelwydydd lefel awdurdodau lleol Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Asesiad Marchnad Tai Leol a'r cynllun Llesiant ar gyfer ardal Cynllun, yn rhan sylfaenol o'r dystiolaeth ar gyfer cynlluniau datblygu.</p>

Dylai'r rhain gael eu hystyried gyda'i gilydd gyda thystiolaeth allweddol arall yng nghyswllt materion fel beth mae'r Cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau rhwng cartrefi a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau am y Gymraeg a pha mor gyflawnadwy yw'r Cynllun, er mwyn dynodi strategaeth briodol ar gyfer darparu tai yn ardal y Cynllun. Aiff ymlaen i ddweud bod rhaid rhoi ystyriaeth briodol hefyd i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach yn ardal cynllun er mwyn sicrhau bod lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus yn cael eu creu. Rhoddir y dasg i awdurdodau lleol asesu a yw elfennau amrywiol y rhagamcanion yn briodol ar gyfer eu hardal, ac os nad ydynt, y dylent wneud gwaith modelu, ar sail tystiolaeth gadarn, i ddynodi dewisiadau gwahanol.

Defnyddiwyd y rhagdybiaethau sylfaenol o'r rhagamcanion ar sail 2018 i baratoi'r dewis penodol hwn gan ychwanegu lefel o dwf mewn tai fforddiadwy. Fodd bynnag, yn yr un modd â Opsiwn Twf 1, byddai defnyddio'r sefyllfa hon fel strategaeth twf y CDLIN yn arwain at ofyn am dai gweddilliol negyddol ac yn cael effaith niweidiol ar uchelgais strategol y Cyngor o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Byddai'r dewis hwn yn mynd yn groes i elfennau allweddol arfaethedig amcanion y CDLIN ac ar ôl opsiwn 1 hwn sy'n perfformio waethaf mewn cymhariaeth ag amcanion y gwerthusiad. Ni fyddai'r cyfuniad o ostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith a chynnydd yn y cohort 60+ yn gyrru twf/ffyniant economaidd; yn hytrach byddai'n arwain at lif o weithwyr a phreswylwyr allan o'r Sir. Byddai hyn yn arwain at oblygiadau o ran cadw pobl iau yn y Sir i fyw a gweithio. Dangosodd y pandemig presennol bwysigrwydd sicrhau bod ein cymunedau yn gytbwys ac yn gynaliadwy yn gymdeithasol, yn glir, yn arbennig o ran demograffeg. Ni fyddai'r dewis hwn yn ymdrin â'r diffyg cydbwysedd demograffig yn y Sir.

Byddai gostyngiad yn y boblogaeth o oedran gwaith yn y Sir gyda gweithlu llai yn methu cynnal y ddarpariaeth waith leol yn arwain at golli swyddi ac effaith negyddol ar yr economi leol. Ychydig o gyfle y byddai hyn yn ei gynnig i greu economi ffyniannus, wedi ei chysylltu'n dda, amrywiol, sy'n un o amcanion allweddol y CDLIN ac mae wedi ei amlygu fel rhywbeth sydd o bwysigrwydd mawr yng ngoleuni'r pandemig presennol.

Byddai'r diffyg cartrefi newydd hefyd yn cael effaith negyddol ar ddarparu tai fforddiadwy. Gallai cyflenwad cyfyngedig o dai arwain at brisiau tai uwch, gan wneud y Sir hyd yn oed yn llai fforddiadwy i'r boblogaeth iau a pharhau'r diffyg cydbwysedd demograffig. Byddai'r demograffig anghytbwys a'r diffyg cyfleoedd yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ddiben creiddiol o lunio cymunedau cynaliadwy, gwydn sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'n cael ei gydnabod, gan nad yw'r opsiwn twf hwn yn gofyn am ddyraniadau newydd, ei fod yn debygol o osgoi effeithiau arwyddocaol ar ffactorau yn ymwneud ag adnoddau naturiol a newid yn yr hinsawdd, ond rhaid i'r CDLIN ymdrin â'r argyfwng newid yn yr hinsawdd gan hefyd gyflawni ar agweddau llesiant eraill y Sir, fel angen am dai, ffyniant economaidd, a chymunedau cydlynus. Mae'r ymdrechion i daclo newid yn yr hinsawdd yn amrywiol iawn a bydd angen dull cydlynus o ddatblygu gan gynnwys agweddau fel teithio llesol, seilwaith gwyrdd, defnydd effeithiol o adnoddau a thir a gallu gwrthsefyll llifogydd.

Er bod y dewis hwn yn cael ei ystyried gan rai, wrth ymateb i'r ymgynghoriad, fel un sy'n cynrychioli strategaeth risg isel ar gyfnod o ansicrwydd digynsail, cynhaliwyd adolygiad o'r Materion, y Weledigaeth a'r Amcanion ym Mehefin 2020 a daeth i'r casgliad eu bod yn parhau yn ddilys yn sgîl Covid-19 ac mewn rhai enghreifftiau wedi cynyddu yn eu pwysigrwydd.

Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar yr opsiynau twf ac yng ngoleuni'r effeithiau negyddol yn gysylltiedig â'r dewis twf hwn a'i berfformiad gwael mewn cymhariaeth ag amcanion y CDLIN a themâu'r Gwerthusiad a ddynodwyd, nid yw'n cael ei hystyried yn ddoeth symud y dewis hwn ymlaen fel y dewis twf a ffafir ar gyfer y CDLIN.

### **Opsiw 3: Prif Ragamcan ar sail 2018 Llywodraeth Cymru (gyda thybiaethau polisi wedi eu hychwanegu)**

Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (Chwefror 2021) yn nodi bod rhagamcanion aelwydydd lefel awdurdodau lleol Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Asesiad Marchnad DTai Leol a'r cynllun llesiant ar gyfer ardal y Cynllun, yn rhan sylfaenol o'r dystiolaeth ar gyfer cynlluniau datblygu. Dylai'r rhain gael eu hystyried gyda'i gilydd gyda thystiolaeth allweddol arall yng nghyswllt materion fel beth mae'r Cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau rhwng cartrefi a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau am y Gymraeg a pha mor gyflawnadwy yw'r Cynllun, er mwyn dynodi strategaeth briodol ar gyfer darparu tai yn ardal y Cynllun. Aiff ymlaen i ddweud bod rhaid rhoi ystyriaeth briodol hefyd i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach yn ardal cynllun er mwyn sicrhau bod lleoedd cynaliadwy a chymunedau

cydlynus yn cael eu creu. Rhoddir y dasg i awdurdodau lleol asesu a yw elfennau amrywiol y rhagamcanion yn briodol ar gyfer eu hardal, ac os nad ydynt, y dylent wneud gwaith modelu, ar sail tystiolaeth gadarn, i ddynodi dewisiadau gwahanol.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2, defnyddiwyd y rhagdybiaethau sylfaenol o'r rhagamcanion ar sail 2018 i baratoi'r dewis penodol hwn, gyda thybiaethau polisi ychwanegol i ymdrin â'r problemau allweddol y mae'r Sir yn eu hwynebu. Er gwaethaf cynnwys y tybiaethau polisi byddai defnyddio'r sefyllfa hon fel strategaeth dwf y CDLIN yn arwain at bron ddim twf gweddilliol mewn tai dros weddill cyfnod y Cynllun ac felly yn cael effaith niweidiol ar uchelgais strategol y Cyngor o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Byddai'r dewis hwn er yn perfformio ychydig yn well nag opsiynau 1 a 2 mewn cymhariaeth â themâu'r gwerthusiad, yn mynd yn groes i elfennau allweddol arfaethedig amcanion y CDLIN. Ni fyddai'r cyfuniad o ostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith a chynnydd yn y cohort 60+ yn gyrru twf/ffyniant economaidd; yn hytrach byddai'n arwain at lif o weithwyr a phreswylwyr allan o'r Sir. Byddai hyn yn arwain at oblygiadau o ran cadw pobl iau yn y Sir i fyw a gweithio. Dangosodd y pandemig presennol bwysigrwydd sicrhau bod ein cymunedau yn gytbwys ac yn gynaliadwy yn gymdeithasol, yn glir, yn arbennig o ran demograffeg. Ni fyddai'r dewis hwn yn ymdrin â'r diffyg cydbwysedd demograffig yn y Sir.

Byddai gostyngiad yn y boblogaeth o oedran gwaith yn y Sir gyda gweithlu llai yn methu cynnal y ddarpariaeth waith leol yn arwain at golli swyddi ac effaith negyddol ar yr economi leol. Ychydig o gyfle y byddai hyn yn ei gynnig i greu economi ffyniannus, wedi ei chysylltu'n dda, amrywiol, sy'n un o amcanion allweddol y CDLIN ac mae wedi ei amlygu fel rhywbeth sydd o bwysigrwydd mawr yng ngoleuni'r pandemig presennol.

Byddai'r diffyg cartrefi newydd hefyd yn cael effaith negyddol ar ddarparu tai fforddiadwy. Gallai cyflenwad cyfyngedig o dai arwain at brisiau tai uwch, gan wneud y Sir hyd yn oed yn llai fforddiadwy i'r boblogaeth iau o oedran gwaith a pharhau'r diffyg cydbwysedd demograffig. Byddai'r demograffig anghytwys a'r diffyg cyfleoedd yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ddiben creiddiol o lunio cymunedau cynaliadwy, gwydn sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Er bod y dewis hwn yn cael ei ystyried gan rai, wrth ymateb i'r ymgynghoriad, fel un sy'n cynrychioli strategaeth risg isel ar gyfnod o ansicrwydd digynsail, cynhaliwyd Adolygiad o'r Materion, y Weledigaeth a'r Amcanion ym Mehefin 2020 a daeth i'r casgliad eu bod yn parhau yn ddilys yn sgil Covid-19 ac mewn rhai enghreifftiau wedi cynyddu yn eu pwysigrwydd.

Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y dewisiadau twf ac yng ngoleuni'r effeithiau negyddol yn gysylltiedig â'r dewis twf hwn a'i berfformiad gwael mewn cymhariaeth â'r amcanion CDLIN a themâu'r gwerthusiad a ddynodwyd, nid yw'n cael ei hystyried yn ddoeth symud y dewis hwn ymlaen fel y dewis twf a ffafir ar gyfer y CDLIN.

---

**Opsiwn 4:**  
**Cyfartaledd wedi ei arwain gan anheddau (ar sail cyfraddau cwblhau anheddau)**

Mae'r dewis hwn yn mynd beth o'r ffordd i ymdrin â'n problemau a bodloni ein hamcanion mewn cymhariaeth â dewisiadau 1 i 3, ac mae'n perfformio'n dda mewn cymhariaeth â themâu'r gwerthusiad. Fodd bynnag, ar y lefel hon o dwf mae'r effeithiau ar ymdrin â'r problemau a chyflawni ein hamcanion yn gyfyngedig. Mae'r dewis hwn yn parhau'r cyfraddau twf anheddau o'r 5 mlynedd diwethaf, h.y. 'busnes fel arfer'. Trwy ychwanegu'r elfen dan arweiniad polisi tai fforddiadwy, byddai hyn yn arwain at gyfartaledd cwblhau anheddau o 402 o anheddau'r flwyddyn trwy gyfnod y Cynllun sydd yn is na'r gofyn am anheddau yn y CDLI a fabwysiadwyd o 450 o anheddau'r flwyddyn. Byddai twf ar y gyfradd hon yn arwain at barhau'r duedd tuag at ddemograffeg hŷn yn y Sir. Er bod twf o nifer fwy o grwpiau oedran, mae lefel y twf o'r grwpiau oedran iau ar lefel isel. Mae mwyafrif y twf yn y boblogaeth yn dal i ddod o'r grwpiau dros 60 oed, gyda'r grwpiau 45-59 yn gostwng, gan arwain at ddemograffeg anghytwys eto. Er bod y dewis hwn yn rhagweld twf mewn swyddi o 5,460 swydd, o ran cyfartaledd y nifer o swyddi yn y Sir, mae'r dewis hwn yn dal i ragamcanu lefel is na dros y 15 mlynedd diwethaf. Byddai hyn eto yn arwain at oblygiadau o ran cadw pobl iau yn y Sir i fyw a gweithio. Byddai'r demograffig anghytwys a'r diffyg tai a chyfleoedd economaidd yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ddiben creiddiol o lunio cymunedau cynaliadwy a gwydn sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y dewisiadau twf ac yng ngoleuni'r effeithiau negyddol yn gysylltiedig â'r dewis twf hwn a'i berfformiad mewn cymhariaeth â'r amcanion CDLIN a'r themâu Gwerthusiad a ddynodwyd, nid yw'n cael ei hystyried yn ddoeth symud y dewis hwn ymlaen fel y dewis twf a ffafir ar gyfer y CDLIN.

**Opsiwn 5: Dan arweiniad poblogaeth (gyda thybiaethau polisi wedi eu hychwanegu)**

Opsiwn Twf 5 - Rhagamcan dan arweiniad poblogaeth (gyda thybiaethau polisi wedi eu hychwanegu) yw'r dewis twf a ffafir gan y Cyngor. Dyma'r opsiwn sy'n perfformio'n fwyaf cadarnhaol mewn cymhariaeth â'r amcanion CDLIN ac orau yn gyffredinol mewn cymhariaeth â themâu'r Gwerthusiad nag unrhyw un o'r pum opsiwn arall. Mae'r dewis hwn yn cynnig lefel o dwf a fyddai'n ymdrin orau â phroblemau/heriau allweddol y Sir a bodloni amcanion y CDLIN, ystyrir ei fod yn ddigon uchelgeisiol ac y gellir ei gyfiawnhau yn gadarn. Dengys y dewis hwn gynnydd arwyddocaol o ran cyflawni demograffeg fwy cytbwys gyda chynnydd yn y cohortau oedran gwaith, bydd hefyd yn gyrru twf/ffyniant economaidd gan gynnig cyfle i greu economi ffyniannus, gyda chysylltiadau da, amrywiol, sy'n un o amcanion allweddol y CDLIN.

Bydd y lefel hon o dwf yn galluogi darparu digon o amrywiaeth a dewis o gartrefi, ar y farchnad a rhai fforddiadwy, y mae yr angen amdanynt wedi cael ei waethygu gan y pandemig presennol. Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn cynorthwyo i sicrhau bod ein cymunedau yn gytbwys ac yn gynaliadwy yn gymdeithasol, yn arbennig o ran demograffeg, sy'n amcan allweddol i'r CDLIN ac y mae'r pandemig cyfredol eto wedi dangos ei bwysigrwydd.

Bydd lefel y twf mewn cyflogaeth dan y dewis hwn yn cynorthwyo i leihau'r angen i deithio / lefelau cymudo allan ac yn hyrwyddo cymunedau hunangynhwysol. Gwelwyd newid sylfaenol mewn arferion gwaith ers dechrau'r pandemig Covid-19 gyda thuedd gynyddol i weithio o gartref/o bell. Disgwylir i'r duedd hon barhau yn y tymor hwy ac yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i 30% o weithlu Cymru weithio o gartref, neu'n agos at gartref, mae'n rhywbeth yr ydym yn dymuno ei annog a'i alluogi. Bydd hyn yn cynnig cyfle i breswylwyr fyw a gweithio yn y Sir yn y ffordd newydd hon, gan gynnig dull hyblyg o gyflawni'r twf mewn swyddi dan y dewis hwn, gan hefyd gyflawni nod Llywodraeth Cymru a'r Cyngor o leihau'r angen i gymudo. Bydd twf wedi ei leoli'n iawn yn cynyddu'r gronfa o gwsmeriaid a'r gweithlu, gan gefnogi cyfleusterau, busnesau a gwasanaethau lleol a galluogi i gymunedau bywiog cynaliadwy gael eu creu a 'chymdogaethau 20 munud'. Mae'r ddibyniaeth gynyddol ar gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol yn ystod y pandemig presennol, wedi amlygu eu pwysigrwydd i'n cymunedau. Y dewis hwn fyddai'n bodloni anghenion a chefnogi cymunedau Sir Fynwy orau trwy ddarparu lefel o dwf a fydd yn cynnig cyfleoedd i sicrhau tai fforddiadwy, gwelliannau i'r seilwaith a'r potensial i wneud y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau a/neu wella seilwaith gwyrdd, manau agored cyhoeddus a darparu cyfleoedd hamdden trwy'r Sir.

Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y dewisiadau twf a'i berfformiad mewn cymhariaeth ag amcanion y CDLIN a themâu'r Gwerthusiad a ddynodwyd y dewis hwn yw'r un a ffafir gan y Cyngor. Yn gyffredinol, ystyrir mai'r dewis hwn yw'r un sydd fwyaf addas i gyflawni gweledigaeth y CDLIN a diben craidd y Cyngor o lunio cymunedau cynaliadwy a gwydn ar draws Sir Fynwy.

**Opsiwn 6: Dan arweiniad cyflogaeth (gyda thybiaethau polisi wedi eu hychwanegu)**

Mae'r opsiwn hwn yn arwain at dwf sylweddol ym mhoblogaeth y Sir a byddai'n gynnydd arwyddocaol mewn cymhariaeth â'r lefelau darparu anheddau ar hyn o bryd. Byddai'n arwain at effaith cadarnhaol ar ddemograffeg gyda chynnydd yn y nifer o bobl hŷn a hen sy'n byw yn y Sir wedi ei gydbwysu gan gynnydd yn y grwpiau oedran gwaith a mwy o ddarpariaeth o dai a swyddi gan gynyddu'r cyfleoedd i'r boblogaeth iau fyw a gweithio yn Sir Fynwy. Dangosodd y pandemig presennol bwysigrwydd sicrhau bod ein cymunedau yn gytbwys ac yn gynaliadwy yn gymdeithasol, yn arbennig o ran demograffeg. Byddai'n darparu lefel o dai sy'n ddigonol i gynnig dewis amrywiol iawn o gartrefi i breswylwyr presennol ac yn y dyfodol. Byddai lefel y twf yn cynnig cyfleoedd i sicrhau mwy o dai fforddiadwy trwy'r system gynllunio. Mae'r pandemig presennol wedi pwysleisio'r angen i sicrhau bod amrywiaeth a dewis o gartrefi (cymysgedd tai) ar gael mewn datblygiadau tai yn y dyfodol i ymdrin â phroblemau fforddiadwyedd y Sir ac i lunio cymunedau cynaliadwy a gwydn trwy Sir Fynwy i gyd.

Mae lefel uchel o greu swyddi ynghyd â gostyngiad yn y lefelau cymudo o'r rhai a gofnodwyd ar adeg Cyfrifiad 2011 felly byddai swm cynyddol o'r swyddi fyddai'n cael eu creu ar gyfer preswylwyr y Sir. Fodd bynnag mae rhywfaint o amwyster o ran y dewisiadau dan arweiniad gwaith o ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhagolygon economaidd, yn arbennig yn yr hinsawdd economaidd presennol yn ymwneud â Covid-19 a Brexit a'u heffaith posibl yn y dyfodol ar yr economi genedlaethol a lleol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr opsiwn hwn yn perfformio'n gryf o ran Amcanion y CDLIN a themâu'r gwerthusiad, fodd bynnag, ystyrir yn y gwerthusiad bod Opsiwn 5, trwy gyd-fynd yn well â'r cyfraddau cyflawni yn y gorffennol, yn cynnig y dewis mwy realistig. Dynododd adborth anffurfiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd ddiffyg hyder mewn rhagamcanion dan arweiniad economaidd. Er bod gan y Cyngor ddyhead i greu economi ffyniannus, wedi ei chysylltu'n dda, amrywiol a'i fod yn gwneud cynnydd tuag at y nod hwn, mae'n cydnabod yr ansicrwydd am effeithiau'r sefyllfaoedd dan arweiniad gwaith ar dwf poblogaeth/tai wrth

ei gymharu â dewisiadau dan arweiniad demograffig a thai. O ystyried hyn, nid yw'r Cyngor yn cynnig defnyddio sefyllfa dan arweiniad economaidd fel sail ar gyfer y dewis twf a ffafir.

- 2.68 Mae'r opsiynau twf a gyflwynir yn cynnig dewisiadau strategaeth twf gwahanol i fod yn sail i'r lefel o dai a gwaith a ddarperir yn y CDLIN, gan ystyried polisi cenedlaethol, y dystiolaeth a'r dyheadau polisi. Ar sail yr asesiad a nodir uchod, Opsiwn Twf 5 - Rhagamcan dan arweiniad poblogaeth (gyda thymbyltyddau polisi wedi eu hychwanegu) yw'r dewis twf a ffafir gan y Cyngor.
- 2.69 Byddai Opsiwn Twf 5 yn cynnig y lefel o dwf fydd yn helpu i gyflawni diben craidd y Cyngor o lunio cymunedau cynaliadwy a gwydn ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn sylfaenol, bydd yr opsiwn hwn yn galluogi darparu digon o amrywiaeth a dewis o gartrefi, ar y farchnad a rhai fforddiadwy, y mae yr angen amdanynt wedi cael ei waethgu gan y pandemig presennol. Bydd y dewis hwn hefyd yn cynorthwyo i sicrhau bod ein cymunedau yn gytbwys ac yn gynaliadwy yn gymdeithasol, yn arbennig o ran demograffeg, sy'n amcan allweddol i'r CDLIN ac y mae'r pandemig cyfredol wedi dangos ei bwysigrwydd.
- 2.70 Yn yr un modd, bydd lefel y twf mewn cyflogaeth yn cynorthwyo i leihau'r angen i deithio / lefelau cymudo allan ac yn hyrwyddo cymunedau hunangynhwysol. Er bod y dewis hwn yn rhagamcanu twf arwyddocaol mewn swyddi, gyda chynnydd o 7,215 o swyddi trwy gyfnod y Cynllun, fe welwyd symudiad sylfaenol yn yr arferion gwaith ers dechrau'r pandemig Covid-19 gyda thuedd cynyddol i weithio o gartref/o bell. Disgwylir i'r duedd hon barhau yn y tymor hwy ac yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i 30% o weithlu Cymru weithio o gartref, neu'n agos at gartref, mae'n rhywbeth yr ydym yn dymuno ei annog a'i alluogi. Bydd hyn yn cynnig cyfle i breswylwyr fyw a gweithio yn y Sir yn y ffordd newydd hon, gan gynnig dull hyblyg o gyflawni'r twf mewn swyddi dan y dewis hwn, gan hefyd gyflawni nod Llywodraeth Cymru a'r Cyngor o leihau'r angen i gymudo. Bydd hyn yn ei dro yn lleihau tagfeydd, allyriadau a llygredd, yn gwella cydbwysedd bywyd gwaith gweithwyr a chyflogwyr, yn cefnogi busnesau/gwasanaethau lleol ac yn galluogi i gymunedau cynaliadwy bywiog gael eu creu a 'chymdogaethau 20 munud'. Er na fydd yn bosibl i'r holl sectorau gwaith weithio o gartref / weithio o bell, bydd cefnogaeth polisi sy'n gwneud band eang yn ofynnol a chefnogi darparu canolfannau cyflogaeth lleol yn galluogi'r rhai sy'n gallu ac yn dewis gwneud hynny. Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar dueddiadau prynu cartrefi gyda phwyslais ar ansawdd bywyd, maint y tai a mynediad at ofod gwyrdd y tu allan yn hytrach na phwyslais ar amseroedd cymudo. Mae Sir Fynwy yn atyniadol iawn ac mae mewn sefyllfa i gael budd o boblogaeth sy'n gynyddol weithredol yn economaidd heb y problemau cysylltiedig o gynnydd mewn cymudo, a byddai busnesau a gwasanaethau lleol yn cael budd o gynnydd mewn busnes a chwsmeriaid gyda gweithwyr yn gwario eu cyflogau mewn busnesau lleol yn hytrach nag yn y dref/ddinas yr oedden nhw'n gweithio ynddi o'r blaen.
- 2.71 Bydd twf wedi ei leoli'n iawn yn cynyddu'r gronfa o gwsmeriaid a'r gweithlu, gan gefnogi cyfleusterau, busnesau a gwasanaethau lleol. Mae'r ddibyniaeth gynyddol ar gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol yn ystod y pandemig presennol, wedi amlygu eu pwysigrwydd i'n cymunedau. Y dewis hwn fyddai'n bodloni anghenion a chefnogi cymunedau Sir Fynwy orau trwy ddarparu lefel o dwf a fydd yn cynnig cyfleoedd i sicrhau tai fforddiadwy, gwelliannau i'r seilwaith a'r potensial i wneud y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau a/neu wella seilwaith gwyrdd, manau agored cyhoeddus a darparu cyfleoedd hamdden.
- 2.72 Yn gyffredinol, Opsiwn Twf 5, rhagamcan dan arweiniad poblogaeth (gyda thymbyltyddau polisi ychwanegol) sydd yn bodloni'r amcanion CDLIN orau heb effeithiau niweidiol ar yr amcan argyfwng hinsawdd ac ystyried mai hwn sydd fwyaf tebygol o wireddu'r weledigaeth yn y CDLIN a diben craidd y Cyngor o lunio cymunedau cynaliadwy a gwydn ar draws Sir Fynwy.

## Lleoliad y twf

**Tabl 2.10: Amlinellwch y rhesymau dros ddewis y dewis twf a ffafirir**

Opsiyau (math)	Amlinellu rhesymau
<p><b>Opsiw 1: Parhau'r strategaeth CDLI bresennol</b></p>	<p>Mae parhau'r strategaeth bresennol yn perfformio'n dda mewn cymhariaeth ag amcanion y CDLIN a'r themâu gwerthusiad ac mae'n ymdrin â llawer o'r heriau a phroblemau allweddol sy'n wynebu'r Sir. Ystyrir bod strategaeth y CDLI bresennol yn gweithio'n dda, fel y mae Adroddiadau Monitro Blyneddol y CDLI yn dangos. Er y byddai'r twf yn bennaf yn cael ei gyfeirio tuag at y Prif Drefi sef aneddiadau mwyaf cynaliadwy'r Sir, byddai angen i unrhyw broblemau o ran capasiti'r seilwaith ac effeithiau amgylcheddol posibl gael eu trin fel rhan o broses paratoi'r Cynllun.</p> <p>Er bod y strategaeth bresennol yn perfformio'n dda o ran darparu tai ym Mhrif Drefi'r Sir ac ar Lannau Hafren, mae'n cael ei gydnabod nad yw'r lefel arfaethedig o dwf mewn ardaloedd gwledig wedi ei gyflawni'n llawn ac nad yw cyflawni tai fforddiadwy yn gyffredinol o ganlyniad i hynny wedi bod yn ddigonol. Yn ychwanegol, er bod tai yn cael eu darparu ar y safleoedd strategol, nid yw'r ddarpariaeth waith ar y safleoedd hyn wedi cael ei chyflawni ar gyfer yr holl safleoedd Defnydd Cymysg Strategol, gyda dim ond Heol Wonastow yn cyflawni cyflogaeth ar y safle hyd yn hyn. Mae'n cael ei gydnabod bod angen cysylltu twf tai a chyflogaeth a bydd unrhyw ddyraniadau gwaith yn y dyfodol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adolygiad Tir Cyflogaeth a dyheadau eraill y Cyngor.</p> <p>Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Opsiyau Gofodol ac o ystyried yr asesiad uchod, nid yw'n cael ei ystyried yn ddoeth symud Opsiw Gofodol 1 ymlaen.</p>
<p><b>Opsiw 2: Dosbarthu Twf yn Gymesur ar draws aneddiadau mwyaf cynaliadwy'r Sir</b></p>	<p>Byddai'r dewis hwn yn darparu twf cymesur yn ardaloedd trefol a gwledig mwyaf cynaliadwy'r Sir, yn unol â'r Gwerthusiad Anheddau Cynaliadwy. Ystyrir y byddai'r dewis gofodol hwn yn cynnig fframwaith defnydd tir a fydd yn helpu i gyflawni diben craidd y Cyngor o helpu i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn sylfaenol, bydd y dewis hwn yn galluogi darparu digon o amrywiaeth a dewis o gartrefi, ar y farchnad a rhai fforddiadwy i'w darparu trwy holl anheddau mwyaf cynaliadwy'r Sir, y mae yr angen amdanynt wedi cael ei waethygu gan y pandemig presennol. Bydd y dewis hwn hefyd yn cynorthwyo i sicrhau bod ein cymunedau yn gytbwys ac yn gynaliadwy yn gymdeithasol, yn arbennig o ran demograffeg, sy'n amcan allweddol i'r CDLIN ac y mae'r pandemig cyfredol wedi dangos ei bwysigrwydd. Yn yr un modd, mae'n ymdrin â thwf mewn gwaith a gwytnwch trwy gyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy ar draws y Sir, a fydd yn cynorthwyo i leihau'r angen i deithio/lefelau cymudo allan ac yn hyrwyddo cymunedau hunangynhwysol. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod bod newid sylfaenol wedi digwydd mewn arferion gwaith ers dechrau'r pandemig Covid-19 gyda thuedd cynyddol i weithio o gartref/o bell. Disgwylir i'r duedd hon barhau yn y cyfnod hwy a fydd yn helpu i leihau'r lefelau cymudo yn ystod cyfnod y Cynllun ac yn ei dro yn lleihau tagfeydd, allyriadau a llygredd, yn gwella cydbwysedd bywyd gwaith gweithwyr a chyflogwyr, yn cefnogi busnesau/gwasanaethau lleol ac yn galluogi i gymunedau cynaliadwy bywiog gael eu creu a 'chymdogaethau 20 munud'. Bydd twf wedi ei leoli'n iawn yn cynyddu'r gronfa o gwsmeriaid a'r gweithlu, gan gefnogi cyfleusterau, busnesau a gwasanaethau lleol. Mae'r ddibyniaeth gynyddol ar gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol yn ystod y pandemig presennol wedi amlygu eu pwysigrwydd i'n cymunedau. Y dewis hwn fyddai'n bodloni anghenion cymunedau trefol a gwledig Sir Fynwy orau ac yn eu cefnogi.</p> <p>Yn gyffredinol, ystyrir mai Opsiw Gofodol 2 yw'r un sydd fwyaf addas i gyflawni gweledigaeth y CDLIN a diben craidd y Cyngor o lunio cymunedau cynaliadwy a gwydn ar draws Sir Fynwy.</p>
<p><b>Opsiw 3: Canolbwyntio ar goridor yr M4</b></p>	<p>Er y byddai canolbwyntio'r twf ar goridor yr M4 yn cynnig cyfle i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwelliannau seilwaith posibl yn ne'r Sir, ni fyddai'n ymdrin â thai ar y farchnad na rhai fforddiadwy, anghenion cymdeithasol nac economaidd ar draws holl ardaloedd eraill y Sir, gan y byddai'r twf yn canolbwyntio ar Lannau Hafren. Byddai'r dewis hwn yn cael effaith negyddol ehangach ar gynnal cymunedau mewn rhannau eraill o'r Sir oherwydd y diffyg twf a chyfleoedd cysylltiedig yn yr ardaloedd hyn. Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Opsiyau Gofodol ac o ystyried yr asesiad uchod, nid yw'n cael ei ystyried yn ddoeth symud y Opsiw Gofodol hwn ymlaen.</p>

**Opsiynau (math)****Amlinellu rhesymau****Opsiwn 4: Canolbwyntio Twf yng Ngogledd y Sir**

Er y byddai canolbwyntio'r twf yng ngogledd y Sir yn cynnig cyfle i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwelliannau seilwaith posibl yng ngogledd y Sir, ni fyddai'n ymdrin â thair ar y farchnad na rhai fforddiadwy, anghenion cymdeithasol nac economaidd ar draws holl ardaloedd eraill y Sir, gan y byddai'r twf yn canolbwyntio yng ngogledd y Sir. Byddai'r dewis hwn yn cael effaith negyddol hefyd ar gynnal cymunedau gwledig, oherwydd y diffyg twf a chyfluoedd cysylltiedig yn yr ardaloedd hyn. Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Opsiynau Gofodol ac o ystyried yr asesiad uchod, nid yw, felly'n, cael ei ystyried yn ddoeth symud y opsiwn gofodol hwn ymlaen. Nodir manylion pellach yn y Papur Cefndir Opsiynau Twf a Gofodol.

- 2.73 Mae'r opsiynau gofodol a gyflwynir yn cynnig dewisiadau strategaeth ofodol i dderbyn twf, gan ystyried y dystiolaeth a'r dyheadau polisi. Ar sail yr asesiad a nodir uchod, Opsiwn 2 o ddsbarthu twf yn gymesur ar draws aneddiadau mwyaf cynaliadwy'r Sir yw opsiwn gofodol a ffafir gan y Cyngor. Ystyrir mai Opsiwn Gofodol 2 yw'r un sydd fwyaf addas i gyflawni diben craidd y Cyngor o lunio cymunedau cynaliadwy a chryf ar draws Sir Fynwy a dyma'r dewis a dderbyniodd fwyaf o gefnogaeth wrth ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal â pherfformio'n dda yng nghyswllt amcanion y CDLIN a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol. Ystyrir mai Opsiwn Gofodol 2 yw'r opsiwn a ffafir gan y Cyngor ar gyfer cymryd twf, o ystyried y dystiolaeth a'r dyheadau polisi.
- 2.74 Byddai'r dewis hwn yn darparu twf cymesur yn yr ardaloedd trefol a gwledig mwyaf cynaliadwy, yn unol â'r Gwerthusiad Anheddau Cynaliadwy. Ystyrir y byddai'r dewis gofodol hwn yn cynnig fframwaith defnydd tir a fydd yn helpu i gyflawni diben craidd y Cyngor o helpu i lunio cymunedau cynaliadwy a chryf ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn sylfaenol, bydd y dewis hwn yn galluogi darparu digon o amrywiaeth a dewis o gartrefi, ar y farchnad a rhai fforddiadwy i'w darparu trwy holl aneddiadau mwyaf cynaliadwy'r Sir, y mae yr angen amdanynt wedi cael ei waethygu gan y pandemig presennol. Bydd y dewis hwn hefyd yn cynorthwyo i sicrhau bod ein cymunedau yn gytbwys ac yn gynaliadwy yn gymdeithasol, yn arbennig o ran demograffeg, sy'n amcan allweddol i'r CDLIN ac y mae'r pandemig cyfredol wedi dangos ei bwysigrwydd. Yn yr un modd, mae'n ymdrin â thwf mewn gwaith a chydnerthedd trwy gyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy ar draws y Sir, a fydd yn cynorthwyo i leihau'r angen i deithio/lefelau cymudo allan ac yn hyrwyddo cymunedau hunangynhwysol. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod bod newid sylfaenol wedi digwydd mewn arferion gwaith ers dechrau'r pandemig Covid-19 gyda thuedd gynyddol i weithio o gartref/o bell. Disgwylir i'r duedd hon barhau yn y cyfnod hwy a fydd yn helpu i leihau'r lefelau cymudo yn ystod cyfnod y Cynllun ac yn ei dro yn lleihau tagfeydd, allyriadau a llygredd, yn gwella cydbwysedd bywyd gwaith gweithwyr a chyflogwyr, yn cefnogi busnesau/gwasanaethau lleol ac yn galluogi i gymunedau cynaliadwy bywiog gael eu creu a 'chymdogaethau 20 munud'. Bydd twf wedi ei leoli'n iawn yn cynyddu'r gronfa o gwsmeriaid a'r gweithlu, gan gefnogi cyfleusterau, busnesau a gwasanaethau lleol. Mae'r ddibyniaeth gynyddol ar gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol yn ystod y pandemig presennol wedi amlygu eu pwysigrwydd i'n cymunedau. Y dewis hwn fyddai'n bodloni anghenion cymunedau trefol a gwledig Sir Fynwy orau ac yn eu cefnogi.
- 2.75 Yn ychwanegol at hyn, mae dadansoddiad y gwerthusiad yn gosod Opsiwn Gofodol 2, ynghyd â Opsiwn Gofodol 1, fel y rhai sy'n perfformio orau yn gyffredinol. Mae'r canfyddiadau yn y gwerthusiad yn dynodi, tra bod rhai gwahaniaethau bach rhwng Opsiynau 1 a 2 o ran sut y mae'r twf yn cael ei ddsbarthu yn ystod cyfnod y Cynllun, nid yw'r gwahaniaethau hyn yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau i un dewis gael ei osod mewn safle uwch neu is na'r llall mewn cymhariaeth â themâu'r gwerthusiad. Yn ôl hynny, mae Opsiwn 2 yn perfformio'n gadarnhaol yn gyffredinol, a gwelir bod ganddo'r potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol arwyddocaol yn y tymor hir mewn cymhariaeth â themâu'r gwerthusiad sy'n ymwneud ag economi/gwaith, poblogaeth/cymunedau, iechyd/llesiant, a chydarddoldeb mewn cymhariaeth â dewisiadau eraill. Mae'r gwerthusiad yn nodi y bydd y dewis hwn yn debygol o ymdrin yn gadarnhaol â'r problemau demograffig sy'n bodoli, gan annog pobl iau i fyw a gweithio yn y Sir. Byddai'r dewis hwn yn perfformio'n gadarnhaol o ran darparu tai i fodloni anghenion a ddynodwyd yn y Sir a byddai'n darparu tai fforddiadwy trwy'r hierarchaeth anheddau, gan sicrhau bod ystod a dewis o gartrefi yn cael ei ddarparu, yn arbennig pan fydd angen am dai fforddiadwy, i gynorthwyo i adennill poblogaeth gytbwys.

2.76 Yn gyffredinol, ystyrir mai'r dewis hwn yw'r un sydd fwyaf addas i gyflawni gweledigaeth y CDLIN a diben craidd y Cyngor o lunio cymunedau cynaliadwy a gwydn ar draws Sir Fynwy.



**Rhan 3: Beth yw  
canfyddiadau'r Gwerthusiad  
ar hyn o bryd?**

## 3. Canfyddiadau'r Gwerthusiad ar hyn o bryd

- 3.1 Mae rhan 2 yr Adroddiad Gwerthusiad a'r Crynodeb Annhechnegol hwn yn ateb y cwestiwn - Beth yw canfyddiadau'r Gwerthusiad ar hyn o bryd? - trwy gyflwyno gwerthusiad o'r Ddogfen Strategaeth a Ffafir. Cyflwynir canfyddiadau cryno'r gwerthusiad isod.
- 3.2 Canfu'r gwerthusiad bod gan y Strategaeth a Ffafir y potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol arwyddocaol o ran themâu'r gwerthusiad economi a gwaith a phoblogaeth a chymunedau. Mae'n cynnig lefel o dwf i fodloni anghenion cymunedau yn ystod cyfnod y cynllun ac yn ei ddosbarthu yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau, mwyafrif y twf yn cael ei ganolbwyntio ar aneddiadau lle mae mynediad da at ddulliau trafndiaeth cynaliadwy a chyfleusterau/gwasanaethau/ cyfleoedd gwaith sy'n bodoli. Pan fydd yn bosibl, mae'n manteisio ar gyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno trwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Metro De Ddwyrain Cymru.
- 3.3 Mae gan y Strategaeth a Ffafir hefyd y potensial i gael effeithiau cadarnhaol yng nghyswllt amcanion cymdeithasol-economaidd trwy gynnal a galluogi'r gwelliannau o ran cynaliadwyedd sydd wedi codi o'r pandemig Covid-19. Mae'r Strategaeth a Ffafir yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau a ddynodwyd yn nogfen Adeiladu Lleuedd Gwell Llywodraeth Cymru i adfer o Covid-19 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, sy'n ceisio manteisio ar lefelau uchel o weithio o gartref a lleihau cymudo allan. Disgwylir i'r duedd o weithio o bell barhau yn y tymor hwy yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i 30% o weithlu Cymru weithio o gartref, neu'n agos at gartref. Bydd hyn yn lleihau cymudo allan heb yr angen i'r holl dwf mewn swyddi fod wedi ei leoli yn ffisegol yn y Sir a bydd yn cefnogi creu lleoedd iach. Rhagwelir effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol hefyd o ran y fframwaith Gwerthusiad ehangach; gan gynnwys iechyd a llesiant, trafndiaeth a symud, a newid hinsawdd.
- 3.4 Canfu'r gwerthusiad hefyd bod potensial ar gyfer effaith gadarnhaol arwyddocaol yn y tymor hir ar y thema trafndiaeth a symud y gwerthusiad. Mae'r twf yn cael ei ddosbarthu yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau gyda'r rhan fwyaf o'r datblygiadau yn cael eu cyfeirio tuag at yr aneddiadau ar yr haen uchaf lle mae gwell mynediad at ddulliau trafndiaeth cynaliadwy a seilwaith ehangach. Ar raddfa strategol mae'n manteisio ar gyfleoedd sy'n codi o gynigion Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Metro De Ddwyrain Cymru, ond ar raddfa benodol i aneddiadau mae'n cynnig cyfleoedd i wella ac ymestyn y Rhwydwaith Teithio Llesol ac integreiddio datblygiad newydd ynddo.
- 3.5 Gan nad oes unrhyw safleoedd penodol/ dyraniadau yn cael eu dynodi ar hyn o bryd, ni fydd y gwerthusiad yn gallu rhagweld neu dynnu unrhyw gasgliadau diffiniol yng nghyswllt natur ac arwyddocâd effeithiau sy'n debygol o ddeillio yng nghyswllt themâu'r gwerthusiad sy'n weddill. Amlygodd y gwerthusiad y potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y themâu sy'n weddill gan ddbynnu ar union leoliad y twf a graddfa'r datblygiad ar y safleoedd. Bydd safleoedd ymgeisiol yn cael eu hystyried drwy broses y gwerthusiad maes o law a bydd y canfyddiadau yn sail i ddatblygu'r Cynllun Adnau.
- 3.6 Mae **Tabl 3.1** isod yn nodi crynodeb o ganfyddiadau'r gwerthusiad ar gyfer y Strategaeth a Ffafir 'yn ei chyfanrwydd' mewn cymhariaeth â holl themâu'r gwerthusiad.

Tabl 3.1: Crynodeb o ganfyddiadau'r prosiect

Thema Gwerthusiad	Sylwadau	Effaith gweddilliol arwyddocaol a ragwelir ar hyn o bryd?
<b>Economi a chyflogaeth</b>	Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn cynnig cyflawni tir cyflogaeth a chartrefi newydd i fodloni anghenion a ddynodwyd a chynnig hyblygrwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'r twf yn cael ei ddsbarthu yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau gyda'r rhan fwyaf o'r datblygiadau yn cael eu cyfeirio tuag at yr aneddiadau ar yr haen uchaf lle mae mwy o angen a gwell mynediad at ddulliau trafndiaeth cynaliadwy a seilwaith ehangach. Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn manteisio ar y Metro De Ddwyrain Cymru arfaethedig i Drefynwy, Cas-gwent a'r Fenni (yn hwyrach yng nghyfnod y cynllun) ac mae hefyd yn edrych ar fanteisio ar leoliad strategol Sir Fynwy ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, rhwng dinasoedd y Great Western a rhanbarth Bryste/ De Cymru, a'i chyswllt â'r M4, M48 a'r coridorau prif linellau rheilffordd i fanteisio ar gyfleoedd economaidd lleol a rhanbarthol. O ganlyniad, dylai helpu i gadarnhau'r gyfradd economaidd uchel bresennol, cynyddu gweithgaredd economaidd ymhellach ac o bosibl leihau cymudo allan. Ochr yn ochr â chefnogi datblygu gwaith newydd mewn sectorau twf swyddi (technolegau newydd a gweithgynhyrchu uwch, TG a diogelwch seibr, twristiaeth a thechnolegau cynaliadwy carbon isel) bydd yn hanfodol bwysig cefnogi a gwella seilwaith sy'n gysylltiedig ag addysg a sgiliau yn yr ardaloedd hyn i sicrhau bod gan bobl y sgiliau cywir ar gyfer y swyddi hyn.	<b>Oes - Cadarnhaol</b>
<b>Poblogaeth a chymunedau</b>	Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn cynnig cyflawni tir newydd ar gyfer tai a gwaith sy'n bodloni ac yn fwy na'r angen tai yn Sir Fynwy a aseswyd yn wrthrychol. Trwy ddefnyddio dull ar sail hierarchaeth aneddiadau i ddsbarthu twf mewn tai mae'r Strategaeth a Ffafrir yn canolbwyntio twf ar leoliadau sy'n cael eu gwasanaethu orau gan y gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol sy'n bodoli. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r twf yn rhesymol o agos at siopau, ysgolion, gwaith a gofal iechyd gan hefyd gynnig cyfleoedd i gyflawni seilwaith cymunedol newydd ar y safle neu oddi arno yn ôl y gofyn. Oherwydd bod twf yn cael ei ddsbarthu yn gymesur, er bod y rhan fwyaf o'r twf yn cael ei gyflawni yn yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy, mae'r aneddiadau gwledig llai ac anghysbell yn dal i gael rhywfaint o dwf newydd a'r manteision cysylltiedig, yn arbennig trwy gyflwyno mwy o ddewis o dai ar gyfer prynwyr am y tro cyntaf a phreswylwyr gwledig hyn a allai fod wedi ei gweld yn heriol parhau i fyw yn eu cymunedau fel arall. Trwy wneud hynny ystyrir bod y Strategaeth a Ffafrir yn cynnig manteision cysylltiedig o ran amcanion cymdeithasol y Cyngor gan gynnwys bodloni anghenion tai grwpiau gwahanol yn y gymuned, adeiladu cymunedau cynaliadwy a chynnal cymunedau gwledig. Mae'r strategaeth hefyd yn ymgorffori elfen sy'n cael ei harwain gan bolisi tai fforddiadwy, a fydd yn helpu i ymdrin â'r heriau demograffig a fforddiadwyedd sy'n wynebu'r Sir gan gael effaith gadarnhaol tymor hir.	<b>Oes - Cadarnhaol</b>
<b>Iechyd a llesiant</b>	Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn cynnig dosbarthu twf yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau gyda'r mwyaf o'r datblygiad yn cael ei gyfeirio tuag at yr aneddiadau ar yr haen uchaf lle mae mwy o angen a gwell mynediad at ddulliau trafndiaeth cynaliadwy a seilwaith ehangach. Bydd hyn yn debygol o gyflwyno cyfleoedd i gysylltu datblygiadau newydd gyda'r rhwydweithiau cerdded, beicio a Seilwaith Gwyrdd sy'n bodoli ym mhob un o'r aneddiadau, gan hefyd gynnig potensial i sicrhau gwelliannau i'r rhwydweithiau hyn trwy'r broses ddatblygu. Cydnabyddir bod Sir Fynwy yn ardal cynllun gwledig i raddau helaeth ac yn y cyd-destun hwn mae llawer o'r aneddiadau llai sy'n cael dyraniad o gyfran lai o'r twf yn annhebygol o gynnal mynediad trwy gerdded a beicio at wasanaethau. Er gwaethaf hyn mae'n bwysig i aneddiadau o'r fath dderbyn manteision peth twf i gynnal eu bywiogrwydd. Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf mewn tai at aneddiadau gyda'r ystod ehangaf o gyfleusterau gofal iechyd ac yn gofyn i'r cyfleusterau gael eu gwella yn ôl y gofyn trwy'r broses ddatblygu i barhau i gynnig gwasanaeth o safon uchel.	<b>Ansicr</b>
<b>Cydraddoldeb, amrywiaeth a</b>	Mae dosbarthiad cymesur y twf yn y Strategaeth a Ffafrir yn golygu y bydd cymunedau gwledig bach yn gweld rhywfaint o fanteision datblygu, gan gynnwys y potensial ar gyfer cyflawni tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig a allai helpu i gynnal bywiogrwydd a	<b>Ansicr</b>

Thema Gwerthusiad	Sylwadau	Effaith gweddilliol arwyddocaol a ragwelir ar hyn o bryd?
<b>chynhwysiant cymdeithasol</b>	hyfywedd aneddiadau gwledig. Bydd hierarchaeth ffyniannus o aneddiadau ar draws ardal y cynllun yn agwedd bwysig o daclo diffyg cydraddoldeb ac amddifadedd yn Sir Fynwy o ran sicrhau mynediad at waith, addysg a gwasanaethau yn neu yn agos at y man lle mae'r angen amdanynt yn codi. Bydd yr edefyn dan arweiniad polisi tai fforddiadwy o'r strategaeth ofodol hefyd yn helpu i ymdrin â'r heriau demograffig a fforddiadwyedd sy'n wynebu'r Sir gan gael effaith gadarnhaol ar thema hon y gwerthusiad. Mae'r Strategaeth a Ffafir hefyd yn cynnwys gofynion polisi a allai helpu i gyflawni seilwaith newydd neu well, gan gynnwys addysg a hyfforddiant, ar draws ardal y cynllun i helpu i ymdrin â'r diffygion yn y ddarpariaeth. Gallai gofynion polisi ychwanegol helpu i greu a chynnal lleoedd hygrych, cynhwysol trwy'r broses ddatblygu sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac yn cael gwared o'r rhwystrau sy'n atal mynediad. Fodd bynnag, ar y cam hwn o lunio'r cynllun mae manylion rhai agweddau allweddol o daclo diffyg cydraddoldeb yn parhau yn ansicr.	
<b>Trafnidiaeth a symud</b>	Mae'r Strategaeth a Ffafir yn rhoi llawer o bwyslais ar y Rhwydwaith Teithio Llesol a phwysigrwydd cyfeirio twf at leoliadau a all gael eu cynnwys yn y rhwydwaith bresennol neu wella ac ymestyn y rhwydwaith presennol er mwyn cysylltu â gwasanaethau a chyfleusterau. Mae'r twf yn cael ei ddisbarthu yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau gyda'r rhan fwyaf o'r datblygiadau yn cael eu cyfeirio tuag at yr aneddiadau ar yr haen uchaf lle mae gwell mynediad at ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy a seilwaith ehangach. Mae dosbarthu twf hefyd yn galluogi'r Strategaeth a Ffafir i fanteisio ar y Metro De Ddwyrain Cymru arfaethedig i Drefynwy, Cas-gwent a'r Fenni (yn hwyrach yng nghyfnod y cynllun). Mae'r Strategaeth a Ffafir yn edrych ar fanteisio ar leoliad strategol Sir Fynwy ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, rhwng dinasoedd y Great Western a rhanbarth Bryste/ De Cymru, a'i chyswllt â'r M4, M48 a'r coridorau prif linellau rheilffordd sy'n elfen bwysig wrth sicrhau bod ardal y cynllun yn dal i gael ei chynnwys ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a thu hwnt. Ar raddfa strategol mae'n manteisio ar gyfleoedd sy'n codi o gynigion Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Metro De Ddwyrain Cymru, ond ar raddfa benodol i anheddau mae'n cynnig cyfleoedd i wella ac ymestyn y Rhwydwaith Teithio Egnïol ac integreiddio datblygiad newydd ynddo.	<b>Oes - Cadarnhaol</b>
<b>Adnoddau naturiol</b>	Gan nad oes unrhyw safleoedd penodol/ dyraniadau yn cael eu dynodi ar hyn o bryd, mae'n anodd rhagweld neu lunio unrhyw gasgliadau diffiniol yng nghyswllt natur ac arwyddocâd effeithiau sy'n debygol o ddeillio yng nghyswllt thema Adnoddau Naturiol y gwerthusiad. Er bod angen gwarchod adnoddau naturiol, mae'n cael ei gydnabod bod y cyfleoedd yn y Sir ar gyfer datblygu tir llwyd a datblygu ar dir amaethyddol is ei safon yn gyfyngedig. Mae natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn ddibynnol ar union leoliad a graddfa'r twf.	<b>Ansicr</b>
<b>Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth</b>	Gan nad oes unrhyw safleoedd penodol/ dyraniadau'n cael eu dynodi ar hyn o bryd, mae'n anodd rhagweld neu lunio unrhyw gasgliadau diffiniol yng nghyswllt natur ac arwyddocâd effeithiau sy'n debygol o ddeillio yng nghyswllt y thema bioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Fodd bynnag yng ngoleuni'r broblem sy'n dod i'r amlwg am orlwytho maetholion yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Gwy ac Wysg, canfu'r cyfrifiadau ffosfforws cychwynnol ar gyfer y Fenni a Threfynwy (AECOM, 2021) bod sefydliadau preswyl neu waith posibl yn yr aneddiadau hyn yn debygol o gael oblygiadau o ran niwtraliaeth maetholion, oherwydd eu bod yn cael eu gwasanaethu gan weithiau trin dŵr gwastraff sy'n gollwng i rannau uchaf y ddwy Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae prif aneddiadau Sir Fynwy yn cael eu cyfyngu ymhellach gan dderbynwyr sensitif eraill sy'n agos at y prif aneddiadau lle mae mwyafrif y twf yn cael ei gyfeirio. O ganlyniad, mae potensial ar gyfer effeithiau ar gyfer y derbynwyr hyn yn ogystal â nifer sydd ymhellach trwy lwybrau effaith amrywiol. Bydd angen i'r derbynwyr sensitif hyn gael eu hystyried trwy broses werthuso safleoedd ymgeisiol y Cyngor a bod yn sail i ddyrannu safleoedd yn y Cynllun Adnau. Mae'r Strategaeth a Ffafir yn cynnwys polisiâu sy'n ceisio diogelu, a phan fydd yn bosibl, gwella'r amgylchedd naturiol a cheisio lliniaru effeithiau'r datblygiadau arfaethedig ar fioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Wrth ystyried yr uchod, dynodir effaith ansicr ar hyn o bryd. Mae natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn ddibynnol ar union leoliad a graddfa'r twf.	<b>Ansicr</b>

Thema Gwerthusiad	Sylwadau	Effaith gweddilliol arwyddocaol a ragwelir ar hyn o bryd?
<b>Amgylchedd hanesyddol</b>	<p>Gan nad oes unrhyw safleoedd penodol/ dyraniadau yn cael eu dynodi ar hyn o bryd, mae'n anodd rhagweld neu lunio unrhyw gasgliadau diffiniol yng nghyswllt natur ac arwyddocâd effeithiau sy'n debygol o ddeillio yng nghyswllt y thema amgylchedd hanesyddol. Mae nifer o asedau treftadaeth dynodedig o fewn ac o gwmpas y prif aneddiadau lle mae mwyafrif y twf yn cael ei gyfeirio. O ganlyniad, mae potensial ar gyfer effeithiau ar gyfer y derbynwyr hyn, gan gynnwys eu lleoliad. Bydd angen i'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys asedau treftadaeth a ddynodwyd, gael eu hystyried trwy broses werthuso safleoedd ymgeisiol y Cyngor a bod yn sail i ddyrannu safleoedd yn y Cynllun Adnau. Mae'r Strategaeth a Ffafir yn cynnwys polisiau sy'n ceisio diogelu, a phan fydd yn bosibl, gwella'r tirwedd a'r amgylchedd hanesyddol. Wrth ystyried yr uchod, dynodir effaith ansicr ar hyn o bryd. Mae natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn ddibynnol ar union leoliad a graddfa'r twf. Nid yw'r Strategaeth a Ffafir yn debygol o gael unrhyw effeithiau uniongyrchol neu arwyddocaol ar yr iaith Gymraeg - yn anuniongyrchol mae gan y cyflawni arfaethedig ar dai a swyddi newydd i fodloni anghenion a'r seilwaith ehangach y potensial ar gyfer mân effeithiau cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.</p>	<b>Ansicr</b>
<b>Tirwedd</b>	<p>Mae'r Strategaeth a Ffafir yn cynnig cyflawni tir cyflogaeth a chartrefi newydd i fodloni anghenion a ddynodwyd a chynnig hyblygrwydd trwy gydol cyfnod y cynllun. Mae'r twf yn cael ei ddosbarthu yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau gyda'r rhan fwyaf o'r datblygiadau yn cael eu cyfeirio tuag at yr aneddiadau ar yr haen uchaf o ystyried canfyddiadau'r Gwerthusiad Aneddiadau Cynaliadwy (2021). Fodd bynnag, mae'r lleoliadau hyn (yn enwedig y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy) wedi eu cyfyngu o ran eu hagosatrydd at dirweddau sydd wedi eu dynodi yn genedlaethol; Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae polisiau Strategaeth a Ffafir yn ceisio sicrhau bod datblygiadau yn cadw ac yn gwella'r ardaloedd allweddol o'r tirwedd, a nodwedd gyffredinol y dirwedd a'r lleoliad gwledig, i leihau maint ac arwyddocâd effeithiau anochel y twf gofynnol. Yn benodol, mae Polisi Strategol S4 yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn ymgorffori egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy a dylunio da. Tra bod potensial i effeithiau negyddol gweddilliol o ystyried bod y Strategaeth a Ffafir yn cyfeirio twf at aneddiadau sy'n agos at dderbynwyr sensitif, yn y pen draw mae natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn ddibynnol ar union leoliad a graddfa'r twf.</p>	<b>Ansicr</b>
<b>Newid yn yr hinsawdd</b>	<p>Mae'r Strategaeth a Ffafir yn cyfeirio twf i anheddau lle mae ardaloedd o risg uchel o ran llifogydd afonol a dŵr arwyneb; ond, mae'n cael ei gydnabod bod polisi a chyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol trwy'r PPW a Nodyn Cynghori Technegol 15 yn gofyn i'r datblygiadau gael eu cyfeirio oddi wrth yr ardaloedd lle mae mwyaf o risg. Yn ddamcaniaethol gallai dosbarthu twf i'r anheddau haen uwch wneud y mwyaf o'r potensial i gael cyfleoedd ar raddfa strategol i gynnig cynhyrchu ynni adnewyddadwy blaengar, fel cyfuno gwres ac ynni (CHP). Fodd bynnag, mae cyfanswm y twf a gynigir yn gymharol isel mewn termau absoliwt, yn neilltuoel pan ystyrir ymrwymadau, o ganlyniad nid yw'n glir a fydd cyfleoedd ystyrlon i geisio cynlluniau o'r fath yn ymarferol. Mae hyn yn debygol o ddod yn fwy clir pan fydd sefyllfa fwy diffiniol yn hysbys yng nghyswllt Ardaloedd Twf Strategol a dyraniadau safle penodol.</p>	<b>Ansicr</b>

## **Rhan 4: Beth sy'n digwydd nesaf?**

## 4. Camau nesaf a monitro

- 4.1 Mae Rhan 4 o'r Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd Cychwynnol a'r Crynodeb Annhechnegol hwn yn esbonio'r camau nesaf yn y broses llunio cynllun/gwerthusiad cynaliadwyedd.

### Camau Nesaf

- 4.2 Bydd yr Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd Cychwynnol a'r Crynodeb Annhechnegol hwn yn cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffafir ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o ddydd Llun 5 Gorffennaf 2021 hyd ddydd Llun 16 Awst 2021. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu a'u hystyried fel rhan o'r gwaith o lunio'r cynllun eto a'r broses werthuso.
- 4.3 Bydd y cyflwyniadau a dderbynnir ynghyd â rhagor o waith ar y dystiolaeth, gan gynnwys rhagor o waith gwerthuso, yn sail i ddatblygu'r CDLIN Adnau sydd i gael ei gyhoeddi i ymgynghori arno yn ystod haf 2021. Bydd Adroddiad Gwerthusiad wedi ei ddiweddarau yn cyd-fynd â'r CDLIN Adnau i ymgynghori arnynt.

### Monitro

- 4.4 Bydd camau monitro yn cael eu sefydlu yn y fersiwn nesaf o'r Adroddiad Gwerthusiad i ymdrin â'r effeithiau sylweddol posibl sy'n gysylltiedig â'r fersiwn Adnau o'r cynllun. Nid oes unrhyw gamau monitro wedi eu dynodi ar hyn o bryd, gan nad yw'r CDLIN Adnau wedi ei baratoi eto.

